# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Datganiad o Gyfrifon 2016-17

## TABL CYNNWYS


| | RHIF TUD. |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 1-6 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau / Tystysgrif y Trysorydd | 7 |
| Adroddiad yr Archwiliad | 8-9 |
| **Datganiadau Craidd:** | |
| Dadansoddiad o Wariant a Chyllid | 10 |
| Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant | 11 |
| Datganiad ar y Symudiad mewn Cronfeydd | 12 |
| Y Fantolen | 13 |
| Datganiad Llif Arian | 14 |
| | |
| **Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol** | |
| Nodyn 1 - Crebwyll wrth ddilyn Polisïau Cyfrifyddu | 15 |
| Nodyn 2 - Rhagdybiaethau a wneir am y Dyfodol a Ffynonellau Pwysig Eraill o Ansicrwydd wrth Amcangyfrif | 15-16 |
| Nodyn 3 - Eitemau Pwysig o Incwm a Gwariant | 16 |
| Nodyn 4 - Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen | 16 |
| Nodyn 5 - Nodyn i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid | 17 |
| Nodyn 6 - Dadansoddiad Manwl o Wariant ac Incwm | 18-19 |
| Nodyn 7 - Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Chyllido dan Reoliadau | 19-21 |
| Nodyn 8 - Trosglwyddiad i ac o'r Cronfeydd a Glustnodwyd | 21 |
| Nodyn 9 - Gwariant ac Incwm Gweithredu Eraill | 22 |
| Nodyn 10 - Incwm a Gwariant Cyllid a Buddsoddiadau | 22 |
| Nodyn 11 - Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol | 22 |
| Nodyn 12 – Eiddo, Peiriannau ac Offer ac Asedau Anniriaethol | 23-24 |
| Nodyn 13 - Offerynnau Ariannol | 25-27 |
| Nodyn 14 - Gwerth Teg Asedau ac Ymrwymiadau sy'n cael eu cario ar gost amorteiddiedig | 27 |
| Nodyn 15 - Rhestrau Stoc | 27 |
| Nodyn 16 - Dyledwyr | 28 |
| Nodyn 17 - Arian a Chyfwerth ag Arian | 28 |
| Nodyn 18 - Credydwyr | 28 |
| Nodyn 19 - Darpariaethau | 28 |
| Nodyn 20 – Cronfeydd Defnyddiadwy | 28-29 |
| Nodyn 21 – Cronfeydd Annefnyddiadwy | 29-32 |
| Nodiadau 22 i 24 – Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Gweithredu, Buddsoddi ac Ariannu | 33-34 |
| Nodyn 25 - Gweithrediadau Masnachu | 34 |
| Nodyn 26 - Lwfansau Aelodau | 34 |
| Nodyn 27 - Taliadau Swyddogion | 35-36 |
| Nodyn 28 - Ffioedd Archwilio | 37 |
| Nodyn 29 - Grantiau | 37 |
| Nodyn 30 - Partïon Cysylltiedig | 37-38 |
| Nodyn 31 - Gwariant ac Ariannu Cyfalaf | 38-39 |
| Nodyn 32 - Lesoedd | 39 |
| Nodyn 33 - Buddion Terfynu | 39 |
| Nodyn 34 – Trafodion yn ymwneud â Buddion Ôl-gyflogaeth | 40-44 |
| Nodyn 35 - Natur a Maint y Risgiau sy'n deillio o Offerynnau Ariannol | 44-45 |
| Nodyn 36 - Asedau Amodol | 45 |
| Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân | 46-48 |
| Datganiad Polisïau Cyfrifyddu (Atodiad 1) | 49-56 |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Atodiad 2) | 1-14 |

# ADRODDIAD NARATIF

**1.** Mae’r cyfarwyddyd gweithredol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i’w gael yn y Fframwaith Cenedlaethol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae’r Fframwaith Cenedlaethol yn ceisio ehangu rôl y Gwasanaethau Tân ac Achub o safbwynt atal, addysgu ac ymwneud â’r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, gan sicrhau’r un pryd nad amherir ar eu gallu i ymladd tanau. Ar adeg o heriau ariannol eithriadol, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i barhau i ddarparu gwasanaethau ataliol rhagorol, gwasanaethau gorfodi diogelwch tân, ac ymateb brys i amrywiaeth o ddigwyddiadau, gan gynnwys tân, llifogydd a damweiniau traffig ar y ffyrdd.

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru yn paratoi cynlluniau gweithredu blynyddol er mwyn lleihau'r risgiau a gwella gwasanaethau, gyda phwyslais cynyddol ar atal ac addysgu. Mae’r Awdurdod yn parhau â’i ymrwymiad i chwarae ei ran yn creu cymunedau cryfach a diogelach, ond hefyd yn cydnabod y bydd y sefyllfa ariannol ar gyfer y dyfodol yn golygu bod y gallu i gynnal gwasanaethau yn gofyn am lawer o hyblygrwydd a dyfeisgarwch.

Mae’r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau brys eraill, er enghraifft, rheolir y portffolio eiddo gan Adran Rheoli Cyfleusterau ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, ac mae Ystafell Reoli’r Gwasanaeth Tân mewn adeilad sy’n cael ei rannu gyda’r Heddlu yn Llanelwy. Mae’r Awdurdod hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o brosiectau eraill sy’n adlewyrchu amcanion y Fframwaith Cenedlaethol, er enghraifft Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc sy’n cael ei rhedeg gan ddiffoddwyr tân pan nad ydynt ar ddyletswydd, gyda changhennau ledled y Gogledd; prosiect y Ffenics sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda phobl ifanc yn yr ardal; ac Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru trwy nifer o ddigwyddiadau ‘Effeithiau Angheuol’ trwy’r Gogledd.

Mae Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn gyhoeddiad sy’n ofynnol dan y gyfraith; a’i ddiben yn bennaf yw darparu gwybodaeth glir ynghylch sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru am y flwyddyn ariannol 2016-17.

2(a). Mae’r cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 (y Cod). Ar gyfer datganiadau 2016-17, mae’r cod wedi cael ei ddiwygio er mwyn ymgorffori ail gysylltiad rhwng datganiadau ariannol awdurdodau lleol a’r ffordd y mae’r awdurdodau hynny’n cael eu trefnu a’u hariannu. Nid yw’r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant yn cael ei baratoi mwyach yn unol â SeRCOP (Cod Ymarfer Adrodd Gwasanaethau) ond yn hytrach yn ôl y diwyg a ddefnyddir gan yr Awdurdod i baratoi cyllidebau ac i adrodd ynghylch y sefyllfa ariannol i’r Aelodau. Mae yna ddatganiad craidd ychwanegol, sef Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, sy’n cysylltu’r sefyllfa ariannol sy’n gyfarwydd i’r Aelodau a’r gwariant yn unol ag arferion cyfrifyddu cywir sy’n cynnwys taliadau a ddiffinnir yn statudol.

2(b). Dyma’r datganiadau, a’u dibenion:-

(i) **<u>Dadansoddiad o Wariant a Chyllid</u>**

Mae’r datganiad yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a’i ariannu gan adnoddau (grantiau, cyfraniadau ac ati) gan awdurdodau lleol o gymharu ag adnoddau a ddefnyddir neu a enillir gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae’r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu ar gyfer gwneud penderfyniadau, a hynny’n unol â’r math o wariant sydd. Mae Incwm a Gwariant y rhoddir cyfrif amdanynt dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP) yn cael eu cyflwyno’n llawnach yn y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant (CIES).

(ii) **<u>Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant (CIES)</u>**

Mae’r datganiad hwn yn dangos y gost cyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â GAAP, sef yr arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na’r swm i’w ariannu gan gyfraniadau. Mae gwariant yr Awdurdod yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn unol â’r rheoliadau; gallai hyn fod yn wahanol i’r gost cyfrifyddu. Dangosir sefyllfa’r cyfraniadau yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd.

(iii) **<u>Y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd</u>**

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr Awdurdod, wedi'i ddadansoddi'n 'gronfeydd defnyddiadwy' (sef y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) a chronfeydd eraill. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darpariaeth Gwasanaeth yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, a dangosir rhagor o fanylion am hynny yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sydd angen eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, sy'n cael ei hariannu gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Cyfansoddol. Mae'r llinell Cynnydd / Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol cyn i'r Awdurdod wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i'r cronfeydd a glustnodwyd ac ohonynt.

(iv) **<u>Datganiad y Sefyllfa Ariannol (Y Fantolen)</u>**

Mae'r Fantolen yn dangos y gwerth, ar ddyddiad y Fantolen, yr asedau a'r ymrwymiadau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymiadau) yn cael eu cyfateb gan y cronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Adroddir ynghylch cronfeydd mewn dau gategori. Y categori cyntaf o gronfeydd yw cronfeydd defnyddiadwy sef cronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Dderbyniadau na ellir ond ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori o gronfeydd yw'r rhai nad yw'r Awdurdod yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd yn cynnwys cronfeydd sy'n dal enillion a cholledion na wireddwyd (er enghraifft y Gronfeydd Ailbrisio), lle na fyddai symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau os caiff yr asedau eu gwerthu; ac mae cronfeydd sy'n dal gwahaniaethau amseru yn cael eu dangos yn y llinell Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd 'Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau'.

(v) **<u>Datganiad Llif Arian</u>**

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian a chyfwerth ag arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian a chyfwerth ag arian trwy gategoreiddio llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o'r gweithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu trwy gyfraniadau ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r gweithgareddau buddsoddi yn dangos y graddau y mae'r all-lifiadau arian wedi eu gwneud ar gyfer adnoddau sydd â'u bwriad o gyfrannu at y modd y gall yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r llifiadau arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragweld ceisiadau o lifiadau arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Awdurdod.

(vi) **<u>Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân</u>**

Mae hyn yn dangos sefyllfa ariannol Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, gan nodi a oes arian yn ddyledus i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru neu iddi, a hynny er mwyn cael balans yn y cyfrif, ynghyd â manylion am ei asedau net.

(vii) **<u>Datganiad o gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon</u>**

Mae hwn yn gosod cyfrifoldebau priodol yr Awdurdod a'i swyddogion am lunio a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Ar dudalen 7, rhoddir datganiad ynghylch y cyfrifoldebau dros y datganiad hwn o gyfrifon.

(viii) **Nodiadau i'r Datganiadau Cyfrifyddu**

Mae'r nodiadau'n cyflwyno gwybodaeth am sail llunio'r datganiadau ariannol a'r polisïau cyfrifyddu penodol a ddefnyddiwyd. Maent yn rhoi gwybodaeth na chyflwynir yn unlle arall yn y datganiadau ariannol, ac maent yn berthnasol er mwyn deall y cyfrifon.

2(c). Mae'r datganiad Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant, y Datganiad Symudiad ar Gronfeydd, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a Chyfrif y Gronfa Bensiwn yn cael eu cefnogi gan nodiadau sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol. Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn bodloni gofynion y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 (y Cod) a gyhoeddwyd gan CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth), a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a Diwygiad 2007 i'r Rheoliadau.

## 3. CRYNMODEB O FLWYDDYN ARIANNOL 2016-2017

### Gwariant Refeniw 2016-2017

Mae Aelodau'r Awdurdod wedi cymeradwyo cyllideb o £31,885,843 ar gyfer y flwyddyn. Yn Nodyn 6, ceir rhagor o fanylion am y gwariant gweithredol, sef gwariant gwirioneddol yr Awdurdod heb yr addasiadau cyfrifyddu. Er mwyn gosod cyllideb fantoledig a pheidio â chynyddu'r cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol, amcangyfrifiwyd y byddai £760k yn cael ei ddefnyddio o'r cronfeydd. Roedd y gwariant net yn is na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer a digwyddodd hyn yn bennaf oherwydd arbedion ar gostau staff oherwydd fod nifer Diffoddwyr Tân y System RDS yn is na'r nifer y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn y gyllideb. Oherwydd bod y gwariant yn is, dim ond £519k o'r cronfeydd a ddefnyddiwyd. Mae'r amrywiad o gymharu â'r gyllideb ar gyfer Gwariant ac Incwm wedi digwydd oherwydd grantiau na chafodd eu cynnwys yn y gyllideb wreiddiol.

| | Cyllideb<br><br>£000 | Gwirioneddol<br><br>£000 | Amrywiad<br><br>£000 |
|---|---|---|---|
| ***Refeniw*** | | | |
| Gwariant | 33,407 | 36,226 | 2,819 |
| Incwm | (761) | (3,845) | (3,851) |
| Gwariant Net | 32,646 | 31,614 | (1,032) |
| Cronfeydd a Glustnodwyd a Darpariaethau | (760) | 272 | 1,032 |
| Cyfraniadau Awdurdodau Unedol | (31,886) | (31,886) | 0 |
| (Gwarged) /Diffyg | 0 | 0 | 0 |
| ***Cyfalaf*** | | | |
| *(gan gynnwys* llithriant a ddygwyd drosodd) | 6,110 | 2,942 | (3,168) |

Mae gwariant refeniw ar yr Awdurdod, ar eitemau sy'n cael eu defnyddio o fewn y flwyddyn fel arfer, ac mae hyn yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdodau lleol cyfansoddol yn ôl poblogaeth. Yn 2016-17, fel hyn roedd y cyfrannau:

| Awdurdod | Cyfraniad 2016/2017 £ | Cyfran % |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 5,277,177 | 16.55 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3,190,812 | 10.00 |
| Cyngor Gwynedd | 5,598,221 | 17.56 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4,363,962 | 13.69 |
| Cyngor Sir y Fflint | 7,022,578 | 22.02 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 6,433,093 | 20.18 |
| **CYFANSWM** | 31,885,843 | |

Cafodd yr Awdurdod nifer o grantiau refeniw gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn i hyrwyddo gwahanol gynlluniau yng Ngogledd Cymru. Cyfanswm gwerth y grantiau a gafwyd oedd £4.107 miliwn (£1.84 miliwn 2015-16), £3.341 miliwn o Grantiau Refeniw a £0.766 miliwn o Grantiau Cyfalaf. Ceir manylion y grantiau refeniw a gafwyd yn Nodyn 29 i'r cyfrifon.

**Ffynonellau Refeniw o Gyllid wedi'u cynnwys yn y Cyfrifon Rheolaeth**

| 2015/16 £'000 | | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| **31,886** | Cyfraniadau'r Awdurdodau Unedol | **31,886** |
| **1,841** | Grantiau Refeniw | **3,341** |
| **7** | Llog | **6** |
| **357** | Ffioedd a Thaliadau ac Incwm Arall | **498** |

**Gwariant Cyfalaf 2016-2017**

£2.942 miliwn oedd cyfanswm y gwariant cyfalaf yn y flwyddyn. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 31 i'r cyfrifon.

| 2015/16 £'000 | | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| 8,346 | Eiddo – Adnewyddiadau, addasiadau, adeiladau newydd | 1,053 |
| 1,344 | Cerbydau a Pheiriannau | 983 |
| 278 | Cyfarpar Gweithredol a TGCh | 906 |
| **9,968** | **Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf** | **2,942** |

**Benthyca Cyfalaf**

Dan y Cod Darbodus, gall yr Awdurdod ariannu'r rhaglen gyfalaf yn unol â pha ddull bynnag o ariannu sydd fwyaf cost-effeithiol. Yn 2016-2017, ariannwyd y rhaglen gyfalaf yn bennaf gan fenthyciadau (£2,336k). £606k oedd y cyllid arall. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 31.

Cyflwynwyd adroddiad manwl am weithgarwch ariannol y flwyddyn i'r Awdurdod Tân ar 19 Mehefin 2017, ac mae ar gael ar wefan y Gwasanaeth Tân (www.gwastan-gogcymru.org.uk).

**Ymrwymiad Pensiwn**

Yn 2016-17, ymddeolodd 14 aelod o staff lifrai amser cyflawn a 9 aelod o staff y system RDS. Bu gostyngiad yng nghost net Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân i'r gyllideb refeniw o'i gymharu â'r llynedd, sef £2.36 miliwn (£2.43 miliwn 15/16) oherwydd aelodau newydd yn ymuno â'r cynllun a rhai costau pontio wrth i Ddiffoddwyr Tân gael eu trosglwyddo i'r cynllun newydd. Mae'r ymrwymiad o ran ymrwymiadau pensiwn yn y dyfodol wedi gostwng i £289.45 miliwn (£239.19 miliwn 15/16) oherwydd newid yn y rhagdybiaethau actiwaraidd. Mae'r actiwarïaid wedi newid y rhagdybiaethau ar gyfer ailfesur yr ymrwymiad diffiniedig net, ac mae'r rhain yn cynnwys gostyngiad yng nghyfradd y disgownt gan arwain at gynnydd sylweddol yn yr ymrwymiadau. Mae'r newidiadau a gymhwyswyd wedi arwain at fwy o ymrwymiad amcangyfrifiedig i'r Awdurdod ar gyfer pensiynau Diffoddwyr Tân.

Yr ymrwymiad a aseswyd yn actiwaraidd ar 31 Mawrth 2017 ar gyfer cynllun pensiwn Llywodraeth Leol oedd £15.18 miliwn (£11.42 miliwn 15/16), ac eto roedd y cynnydd oherwydd newid yn y rhagdybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd, gostyngiad yng nghyfradd y disgownt, wedi arwain at gynnydd yn ymrwymiadau'r cynllun.

Dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 (Buddion Gweithwyr), mae gofyn i'r Awdurdod ddarparu manylion asedau ac ymrwymiadau'r dyfodol ar gyfer pensiynau sy'n daladwy i weithwyr y gorffennol a'r presennol. Amlinellir hyn yn fanylach yn y datgeliadau i'r cyfrifon.

**Costau Ariannu Cyfalaf**

£3.1 miliwn oedd gost a roddwyd ar gyfrifon refeniw'r gwasanaeth i adlewyrchu cost asedau sefydlog a ddefnyddiwyd i ddarparu gwasanaethau. Dyma gost dybiannol ar gyfer dibrisiant, a gwneir addasiad i'r balans diwedd blwyddyn fel nad yw'n effeithio ar y cyfraniadau sydd eu hangen i ariannu'r gwasanaeth. Y gost wirioneddol i'r gwasanaeth am gyfalaf ariannu yw £510k o log benthyciad, a £2,356k o Ddarpariaeth Isafswm Refeniw.

Mae'r cynnydd mewn benthyciad yn ddibynnol ar nifer o ffactorau; swm y gwariant cyfalaf i'w ariannu trwy fenthyca a dyled y benthyciad i'w dalu'n ôl fel rhan o'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. £31.599 miliwn oedd dyled benthyciad yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2017.

**Cronfeydd wrth gefn**

Neilltuwyd arian mewn cronfa gyfalaf, sef £1.44 miliwn, yn 2013-14 i'w ddefnyddio i ariannu'r rhaglen gyfalaf er mwyn lleihau'r costau dyledion ar gyfer cyllidebau'r dyfodol. Defnyddiwyd y gronfeydd fel a ganlyn - 2014-15 £700k, 2015-16 £340k ac yn 2016-17 £400k. Mae'r gronfa gyfalaf wedi'i defnyddio'n llwyr erbyn hyn.

Defnyddir cronfeydd a glustnodwyd ar gyfer nifer o brosiectau. Mae'r prif rai'n talu'r costau pontio ar gyfer y prosiect radio ac i ymorol am y gostyngiad yn y cyllid ar gyfer archwiliadau diogelwch tân yn y cartref. Ni chafodd y cronfeydd hyn eu defnyddio yn 2016-17 ond rhagwelir y byddant yn cael eu defnyddio yn 2017-18.

Ceir rhagor o fanylion am y darpariaethau a'r cronfeydd yn Nodiadau 19 a 20 i'r datganiadau ariannol craidd.

**Effaith yr Hinsawdd Economaidd sydd ohoni**

Oherwydd effaith y setliad llywodraeth leol a’r gostyngiad yn y cyllid i’r awdurdodau cyfansoddol, cytunodd yr Aelodau mai’r flaenoriaeth wrth osod y gyllideb ar gyfer 2016-17 oedd cynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth gwasanaethau gan gwrdd ag unrhyw gynyddiadau drwy gyfraniad o’r cronfeydd wrth gefn. Cytunodd yr aelodau i ddefnyddio £760k o’r cronfeydd wrth gefn i danategu’r gyllideb ond dim ond £519k a ddefnyddiwyd oherwydd tanwariannau o gymharu â’r gyllideb.

## 4. GWYBODAETH YCHWANEGOL

Fe wnaeth Trysorydd a Swyddog Adran 151 yr Awdurdod newid yn ystod y flwyddyn gan fod y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Dawn Docx, wedi cyflawni’r swydd hyd at Ragfyr 2016 cyn penodi’r Trysorydd presennol, sef Ken Finch.

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan Drysorydd yr Awdurdod ym Modlondeb, Conwy. Mae hawl statudol gan aelodau o’r cyhoedd sydd â diddordeb i weld y cyfrifon cyn i’r archwiliad gael ei gwblhau. Rhoddir gwybod yn y wasg leol ac ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (www.gwastan-gogcymru.org.uk) bod y cyfrifon ar gael i’w gweld.

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O GYFRIFON

## CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn gywir ac i sicrhau bod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

## ARDYSTIAD YR AWDURDOD

Rwy'n cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel yr oedd ar 31 Mawrth 2017.

LLOFNOD: ________________________________________ DYDDIAD:______

**Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies**

***Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru***

-

## CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD

Y Trysorydd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod). Mae'n ofynnol i'r Datganiad o Gyfrifon gyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, mae'r Trysorydd wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas, ac yna wedi eu defnyddio'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus;
- cydymffurfio â Chod awdurdodau lleol.

Mae'r Trysorydd hefyd wedi gwneud y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfoes;
- cymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac anghysonderau eraill.

## ARDYSTIAD Y TRYSORYDD
### DATGANIAD O GYFRIFON 2016/2017

Rwy'n tystio bod y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

LLOFNOD: ________________________________________ DYDDIAD:______

K Finch FCPFA

***Trysorydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru***

# ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru; a
- Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaw i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2017 ynghyd â'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân**

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw, ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dros ac ar ran
Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
22 Medi 2017

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

## DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

| 2015/16 | | | | 2016/17 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Net i'w godi ar y Gronfa Gyffredinol | Addasiadau rhwng y sail Cyfrifyddu a Chyllid | Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | | Gwariant Net i'w godi ar y Gronfa Gyffredinol | Addasiadau rhwng y sail Cyfrifyddu a Chyllid | Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant |
| £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** | | | |
| **31,245** | **2,913** | **34,158** | **Cost Net y Gwasanaeth** | **31,614** | **(3,222)** | **28,392** |
| | | | **Incwm a Gwariant Arall** | | | |
| 0 | 8,514 | 8,514 | Addasiadau Incwm a Gwariant Arall | 0 | 8,159 | 8,159 |
| (31,886) | 0 | (31,886) | Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansodd | (31,886) | | (31,886) |
| 641 | 0 | 641 | Cyfraniad i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn | 790 | (766) | 24 |
| **0** | **11,427** | **11,427** | **Diffyg neu (Warged) ar Ddarparu Gwasanaethau** | **518** | **4,171** | **4,689** |
| (1,817) | | | Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol | | | (2,669) |
| (852) | | | Trosglwyddiadau o'r Darpariaethau/Cronfeydd a Glustnodwyd | | | 519 |
| **(2,669)** | | | **Balans Terfynol y Gronfa Gyffredinol** | | | **(2,150)** |

## DATGANIAD CYNHWYSFAWR AR INCWM A GWARIANT

| 2015/16 | | | | 2016/17 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | | Nodyn | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net |
| £'000 | £'000 | £'000 | | | £'000 | £'000 | £'000 |
| **36,337** | **(2,179)** | **34,158** | **Cost Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru** | | **33,004** | **(4,612)** | **28,392** |
| 643 | (25) | 618 | Gwariant Gweithredu Arall | **9** | 3 | (20) | (17) |
| 8,544 | (7) | 8,537 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | **10** | 8,206 | (6) | 8,200 |
| 0 | (31,886) | (31,886) | Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol | **11** | 0 | (31,886) | (31,886) |
| | | **11,427** | **Diffyg neu (Weddill) ar Ddarpariaethau Gwasanaethau** | | | | **4,689** |
| | | (8,879) | Gweddill neu Ddiffyg ar ailbrisio Eiddo ac asedau offer | **21** | | | 2,670 |
| | | (36,360) | Ailfesur yr Ymrwymiad Buddion Diffiniedig Net | **21** | | | 48,726 |
| | | **(45,239)** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **51,396** |
| | | **(33,812)** | **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **56,085** |

# DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

| Symundiad yn y Datganiad Cronfeydd wrth Gefn ar gyer blynyddoedd yn diweddu 31 Mawrth 2016 & 2017 | Nodyn | Balans Cronfa Gyffredinol | Cronfeydd wrth Gefn wedi'u clustnodi a Grant | Cronfa wrth Gefn talebau cyfalaf | Cronfeydd wrth Gefn defnyddiol | Cronfeydd wrth Gefn annefnyddiol | Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans 31 Mawrth 2015** | | **1,817** | **1,567** | **0** | **3,384** | **(264,595)** | **(261,211)** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn 2015/16** | | | | | | | |
| Gweddill neu (Diffyg) ar y Darpariaeth o Wasanaethau | | (11,427) | 0 | 0 | (11,427) | 0 | (11,427) |
| Incwm a Gwariant arall cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 | 45,239 | 45,239 |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **(11,427)** | **0** | **0** | **(11,427)** | **45,239** | **33,812** |
| Cyweiriadau rhwng sail cyfrifyddu a sail cronfa o dan y rheoliadau | 7 | 12,210 | (338) | (25) | 11,847 | (11,847) | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn trosi i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | | 783 | (338) | (25) | 420 | 33,392 | 33,812 |
| Cyweiriad | | 0 | 0 | 0 | 0 | 32 | 32 |
| Trosiannau i/(o) Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd | | 69 | (68) | 25 | 26 | (26) | 0 |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) yn 2015/16** | **8** | **852** | **(406)** | **0** | **446** | **33,398** | **33,844** |
| **Balans 31 Mawrth 2016** | | **2,669** | **1,161** | **0** | **3,830** | **(231,197)** | **(227,367)** |

| Symudiad yn Natganiad Cronfeydd wrth Gefn | Nodyn | Balans Cronfa Gyffredinol | Cronfeydd wrth gefn grant ac glustnodwyd | Cronfa wrth gefn talebau cyfalaf | Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn gellid ei defnyddio | Cronfeydd wrth Gefn annefnyddiol | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans 31 Mawrth 2016** | | **2,669** | **1,161** | **0** | **3,830** | **(231,197)** | **(227,367)** |
| **Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn yn ystod 2016/17** | | | | | | | |
| Gweddill neu (Diffyg) ar y Darpariaeth o Wasanaethau | | (4,689) | 0 | 0 | (4,689) | 0 | (4,689) |
| Incwm a Gwariant arall cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 | (51,397) | (51,397) |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **(4,689)** | **0** | **0** | **(4,689)** | **(51,397)** | **(56,086)** |
| Cyweiriadau rhwng sail cyfrifyddu a sail cronfa o dan y rheoliadau | 7 | 4,193 | 366 | (20) | 4,539 | (4,539) | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn trosi i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | | (496) | 366 | (20) | (150) | (55,936) | (56,086) |
| Cyweiriad | | 1 | | 0 | 1 | | 0 |
| Trosiannau i/(o) Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd | | (24) | 24 | 20 | 20 | (20) | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2016/17** | **8** | **(519)** | **390** | **0** | **(129)** | **(55,956)** | **(56,085)** |
| **Balans 31 Mawrth 2017** | | **2,150** | **1,551** | **0** | **3,701** | **(287,153)** | **(283,452)** |

# MANTOLEN

| 31 Mawrth 2016 | | Nodyn | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| **£'000** | | | **£'000** |
| 53,461 | Eiddo ac Offer | 12 | 50,431 |
| 0 | Asedau Anniriaethol | 12 | 501 |
| **53,461** | **Asedau Hir Dymor** | | **50,932** |
| 518 | Rhestrau Stoc | 15 | 536 |
| 626 | Dyledwyr | 16 | 3,214 |
| 0 | Asedau a ddelir i'w gwerthu | 12 | 411 |
| 495 | Arian a chyfwerth ariannol | 17 | 375 |
| **1,639** | **Asedau Cyfredol** | | **4,536** |
| 13,584 | Benthyca tymor byr | 13 | 17,388 |
| 2,055 | Credydwyr | 18 | 2,556 |
| **15,639** | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **19,944** |
| 250,612 | Rhwymedigaeth Pensiwn | 34 | 304,626 |
| 0 | Darpariaethau | 19 | 0 |
| 16,216 | Benthyca tymor hir | 13 | 14,350 |
| **266,828** | **Rhwymedigaethau tymor hir** | | **318,976** |
| **(227,367)** | **Asedau Net** | | **(283,452)** |
| 3,830 | Cronfeydd wrth gefn gellid defnyddio | 20 | 3,701 |
| (231,197) | Cronfeydd wrth gefn nas ellid defnyddio | 21 | (287,153) |
| **(227,367)** | **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | | **(283,452)** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN

| 2015/16 | | Nodyn | 2016/17 |
|---|---|---|---|
| **£'000** | | | **£'000** |
| 11,395 | Gweddill/Diffyg Net ar Ddarpariaeth o Wasanaethau | | 4,689 |
| (10,176) | Addasiadau i'r Net (Gweddill) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth o Wasanaethau ar gyfer Symudiadau di-ariannol | 22 | (5,365) |
| (458) | Addasiadau i Eitemau wedi'u cynnwys yn y net (Gweddill) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth o Wasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu | 22 | (504) |
| 761 | Llif Arian Net o Weithgareddau gweithredu | 22 | (1,180) |
| 8,791 | Gweithgareddau Buddsoddi | 23 | 2,736 |
| (7,137) | Gweithgareddau ariannu | 24 | (1,436) |
| 2,415 | Net (Cynnydd) neu Ostyngiad mewn arian neu gyfwerth ariannol | | 120 |
| **(2,910)** | **Arian a chyfwerth ariannol ar ddechrau'r cyfnod adroddi** | | **(495)** |
| **(495)** | **Arian a chyfwerth ariannol ar ddiwedd y cyfnod adroddi** | 17 | **(375)** |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

## 1. CREBWYLL WRTH DDILYN Y POLISIAU CYFRIFYDDU

Wrth ddilyn y polisïau cyfrifyddu sydd yn Atodiad 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod arfer doethineb wrth ymdrin â thrafodion cymhleth neu'r rhai lle mae ansicrwydd am y dyfodol. Rhaid penderfynu ar rai pethau yn y datganiad o gyfrifon oherwydd bod llawer o ansicrwydd am lefelau'r cyllid i Lywodraeth Leol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i ddarparu arwydd y gallai asedau'r Awdurdod gael eu niweidio o ganlyniad i'r angen i leihau lefelau darpariaeth gwasanaethau.

Mae'r Awdurdod wedi dechrau ar gytundeb contract gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) i adeiladu cyfleuster i'w rannu yn Wrecsam. Mae'r Awdurdod wedi cyfrannu at gost yr adeiladu, ac am hynny mae wedi cael les 50 mlynedd ar yr adeilad. Mae'r les ar gyfer y rhan o'r adeilad a ddefnyddir yn benodol gan y gwasanaeth a hefyd ar gyfer ardaloedd sy'n cael eu rhannu ag YGAC. Yn dilyn asesiad o'r trefniant, bu'n rhaid penderfynu bod y contract yn cynrychioli les fewnosodedig felly mae'r rhan o'r cyfleuster a ddefnyddir gan y Gwasanaeth wedi cael ei brisio gan y Prisiwr Dosbarth a'r ased wedi'i chydnabod ar y Fantolen am swm y prisiad (£6.1 miliwn). Bydd yr ased yn cael ei dibrisio dros oes y cytundeb les (50 mlynedd).

## 2. RHAGDYBIAETHAU A WNAED AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL O ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIF

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigyrau amcangyfrifiedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod ynglŷn â'r dyfodol neu bethau eraill sy'n ansicr. Mae'r amcangyfrifon yn ystyried profiad hanesyddol, y tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir penderfynu ar falansau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol iawn i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Dyma'r prif eitem ar Fantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2017 y mae y mae iddi risg sylweddol o gael ei haddasu'n fawr yn y flwyddyn ariannol sy'n dod:-

| Eitem | Ansicrwydd | Yr Effaith os yw'r Canlyniadau Gwirioneddol yn wahanol i'r Rhagdybiaethau |
|---|---|---|
| YMRWYMIAD PENSIYNAU | Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ragdybiaethau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd disgownt a ddefnyddiwyd, y gyfradd yr amcanestynnir y bydd cyflogau'n codi, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marw ac, ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yr enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn. Defnyddir actiwariaid i roi asesiad o'r ymrwymiadau. | Mae newidiadau cymharol fach yn y rhagdybiaethau yn gallu cael effaith sylweddol ar ymrwymiad net pensiynau. Ni fydd yr ymrwymiad net pensiynau a ddangosir yn y fantolen ond yn dod yn daladwy dros gyfnod ymddeol y gweithwyr cyfredol a'r rhai sydd wedi ymddeol, fel bod modd ymestyn addasiadau i'r ymrwymiadau dros gyfnod o flynyddoedd drwy newidiadau i gyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr. Mae cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr yn cael effaith uniongyrchol ar y gyllideb. |

| | | |
|---|---|---|
| REFFERENDWM YR UE | Yn dilyn pleidlais y DU i adael yr UE, dylid ystyried rhywfaint beth fydd effaith y penderfyniad ar Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r effaith yn ansicr, fel y mae i'r rhan fwyaf o sefydliadau yn y DU. | Mae'r effaith ar yr economi yn ei chyfanrwydd, ac ar gyllid Awdurdodau Lleol, yn dal yn rhywbeth na wyddom. |
| GWERTH EIDDO | Mae'r Awdurdod yn ailbrisio ei asedau bob 5 mlynedd. Cafodd y prisiad diwethaf ei gynnal yn 2015-16. Mae'n bosibl y gallai gwerthoedd eiddo amrywio'n fawr o fewn y cyfnod o bum mlynedd.<br><br>Mae'n seilio ei brisiadau ar ragdybiaethau am gyflwr asedau, oes ddefnyddiol, gwerth gweddilliol ac amodau'r farchnad.<br><br>Mae'r wybodaeth orau sydd ar gael yn sail i'r farn hon, a phriswyr cymwys sy'n darparu'r farn, ond mae'n dal yn seiliedig ar amcangyfrifon. | Byddai amrywiad yng ngwerth eiddo yn effeithio ar y gwerthoedd sydd yn y Fantolen ac ar yr hyn a godir ar y dibrisiad cyfatebol. |

## 3. EITEMAU PWYSIG INCWM A GWARIANT

Mae Gorchymyn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol) 2016 a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2016 wedi effeithio ar rai aelodau o gynllun pensiwn y diffoddwyr tân 1992.

Bu gofyniad i wneud ad-daliadau, sef £106k, i nifer o Aelodau yr oedd y newid yn y rheoliad yn effeithio arnynt. Cafodd y taliadau eu gwneud drwy Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân a chafodd y costau ychwanegol eu had-dalu gan Lywodraeth Cymru.

## 4. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi gan Drysorydd yr Awdurdod Tân ar 18 Medi 2017. Nid yw digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau. Pan fo digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2017, mae'r ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau wedi cael eu haddasu ymhob agwedd bwysig er mwyn adlewyrchu ardrawiad yr wybodaeth hon.

## 5. NODYN I'R DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

| | 2015/16 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Addasiad i ddiben cyfalaf** | **Newid net ar gyfer yr addasiad pensiwn** | **Gwahaniaethau Eraill** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | | **£'000** | **£'000** |
| GWEITHWYR | 0 | (217) | 57 | (160) |
| ADEILADAU | 0 | 0 | 0 | 0 |
| TRAFNIDIAETH | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFLENWADAU A GWASANAETHAU | 0 | 0 | (742) | (742) |
| GWASANAETHAU CEFNOGI | 0 | 0 | 0 | 0 |
| COSTAU ARIANNU CYFALAF | 4,273 | 0 | (466) | 3,807 |
| INCWM | 0 | 0 | 8 | 8 |
| **Cost Net y Gwasanaeth** | **4,273** | **(217)** | **(1,143)** | **2,913** |
| **Incwm a Gwariant Arall**<br>Addasiadau Incwm a Gwariant Arall | (25) | 8,078 | 461 | 8,514 |
| **Gwahaniaeth rhwng Gwarged neu ddiffyg y Gronfa Gyffredinol a Gwarged neu ddiffyg CIES ar ddarparu gwasanaethau** | **4,248** | **7,861** | **(682)** | **11,427** |

| | 2016/17 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Addasiad i ddiben cyfalaf** | **Newid net ar gyfer yr addasiad pensiwn** | **Gwahaniaethau Eraill** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | | **£'000** | **£'000** |
| GWEITHWYR | 0 | (2,406) | 41 | (2,365) |
| ADEILADAU | 0 | 0 | 0 | 0 |
| TRAFNIDIAETH | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFLENWADAU A GWASANAETHAU | 0 | 0 | (4) | (4) |
| GWASANAETHAU CEFNOGI | 0 | 0 | 0 | 0 |
| COSTAU ARIANNU CYFALAF | (349) | 0 | (510) | (859) |
| INCWM | 0 | 0 | 6 | 6 |
| **Cost Net y Gwasanaeth** | **(349)** | **(2,406)** | **(467)** | **(3,222)** |
| **Incwm a Gwariant Arall**<br>Addasiadau Incwm a Gwariant Arall | (20) | 7,694 | 237 | 7,911 |
| **Gwahaniaeth rhwng Gwarged neu ddiffyg y Gronfa Gyffredinol a Gwarged neu ddiffyg CIES ar ddarparu gwasanaethau** | **(369)** | **5,288** | **(230)** | **4,689** |

**6. DADANSODDIAD MANWL O WARIANT AC INCWM**
**CRYNODEB O'R CYFRIFON RHEOLI 2015/16 a 2016/17**

## Crynodeb o'r Cyfrifon Rheolaeth 2015/16 a 2016/17

| 2015/16 | | 2016/17 |
|---|---|---|
| | **GWARIANT** | |
| | **COSTAU GWEITHWYR** | |
| 13,508,238 | Diffoddwyr Tân - Llawn Amser | 14,137,834 |
| 3,374,670 | Diffoddwyr Tân - Rhan amser | 3,193,582 |
| 4,406,518 | Staff Cefnogi | 4,827,886 |
| 481,571 | Costau Hyfforddi | 447,058 |
| 13,042 | Taliadau Atodol i Gronfeydd Pensiynau | 19,979 |
| 458,621 | Taliadau Pensiwn | 456,080 |
| 98,832 | Costau Eraill Staff | 143,668 |
| **22,341,491** | **CYFANSWM COSTAU GWEITHWYR** | **23,226,087** |
| | **COSTAU ADEILADAU** | |
| 904,046 | Cyfleustodau a Threthiant | 934,787 |
| 405,502 | Cynnal a Chadw | 448,580 |
| 175,306 | Rhenti | 187,144 |
| 59,873 | Arall | 0 |
| **1,544,727** | **CYFANSWM COSTAU ADEILADAU** | **1,570,511** |
| | **TRAFNIDIAETH** | |
| 870,994 | Costau Cynnal a Chadw | 925,347 |
| 218,758 | Costau Teithio a Chynllun Car Prydles | 230,226 |
| 0 | Taliadau Prydles Gweithredu | 0 |
| **1,089,752** | **CYFANSWM COSTAU TRAFNIDIAETH** | **1,155,573** |
| | **CYFLENWADAU A GWASANAETHAU** | |
| 381,477 | Offer | 322,101 |
| 1,955,661 | TG a Chyfathrebu | 2,033,777 |
| 1,070,252 | Cyflenwadau a gwasanaethau eraill | 1,136,314 |
| 1,424,553 | Gwariant Grant | 2,940,700 |
| **4,831,943** | **CYFANSWM CYFLENWADAU A GWA** | **6,432,892** |
| | **GWASANAETHAU CEFNOGI** | |
| 434,971 | Taliadau Asiantaeth | 416,982 |
| 414,644 | Cytundebau Gwasanaeth Cefnogi | 360,302 |
| **849,615** | **CYFANSWM GWASANAETHAU CEFN** | **777,284** |
| 2,822,045 | **COSTAU ARIANNU CYFALAF** | 3,063,408 |
| **33,479,574** | **CYFANSWM GWARIANT** | **36,225,756** |
| | **INCWM** | |
| (323,296) | Gwerthiant, Ffioedd a Chostau | (337,066) |
| (71,438) | Incwm Arall | (167,471) |
| (1,840,153) | Incwm Grant | (4,107,115) |
| **(2,234,887)** | **CYFANSWM INCWM** | **(4,611,652)** |
| **31,244,687** | **COSTAU GWEITHREDU NET** | **31,614,104** |
| 641,158 | Cyfraniad i'r gronfa Cyfalaf am Offer a Cherbydau | 24,000 |
| 0 | Cyfraniad i'r gronfa Grantiau | 766,399 |
| 0 | Cyfraniad i/(o'r) Ddarpariaethau a Chronfeydd wrth gefn | (518,658) |
| (31,885,845) | Incwm o Gyfraniadau | (31,885,845) |
| **0** | **GWEDDILL/DIFFYG AR GYFER Y FLWYDDYN** | **0** |

**Cysoni Incwm a Gwariant y Gwasanaeth a gyflwynwyd yn y Cyfrifon Rheolaeth â Chost Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant**

Mae’r cysoniad hwn yn dangos sut mae’r ffigurau sydd yn y Datganiad Dadansoddi Gwariant a Chyllid yn gysylltiedig â’r symiau sydd yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

| ***2015/16 £’000*** | | | ***2016/17 £’000*** | |
|---|---|---|---|---|
| | 31,245 | Gwariant Net yn Nadansoddiad y Gwasanaeth | | 31,614 |
| | | **Symiau yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwraint sydd heb eu hadrodd i’r rheolwyr yn y Dadansoddiad** | | |
| 3,028 | | Dibrisiad | 3,142 | |
| (3) | | Rhyddhau Grant Llywodraeth | (186) | |
| (217) | | IAS 19 – Addasiad Pensiynau (Nodyn 33) | (2,406) | |
| 3,604 | | Amhariad | 1,407 | |
| 57 | | Absenoldebau Cronedig | 41 | |
| 0 | | Addasiad Dibrisiad CAA | (2,160) | |
| | 6,469 | **Symiau sydd yn y Dadansoddiad ac sydd heb eu cynnwys yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant** | | (162) |
| (2,356) | | Ad-dalu Dyledion (MRP a VRP) | (2,553) | |
| (466) | | Llog a dalwyd | (510) | |
| 8 | | Llog a gafwyd | 6 | |
| (740) | | Darpariaethau a Chronfeydd Wrth Gefn | 0 | |
| (2) | | Diffyg Cyfrif Masnachu | (3) | |
| | (3,556) | | | (3,060) |
| | **34,158** | **Cost Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant** | | **28,392** |

## 7. ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFYDDU A SAIL ARIANNU DAN REOLIADAU

Mae’r nodyn hwn yn rhestru’r addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a’r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn y flwyddyn, a hynny yn unol â’r arfer cyfrifyddu priodol i’r adnoddau a enwir gan y darpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i’r Awdurdod ar gyfer cwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| 2015/16 | Cronfeydd wrth gefn gellid defnyddio | | | | Cronfeydd wrth gefn na ellid ddefnyddio |
|---|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa wrth GefnGyffredinol | Cronfa wrth Gefn Cyfalaf wedi'i glustnodi | Cronfa wrth Gefn Talebion Cyfalaf | Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn gellid defynddio | Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn nas ellid defynyddnio |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Addasiadau'n bennaf yn ymwneud â Chyfrif Cyfalaf wedi'i addasu** | | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau wedi'u debydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | | |
| Costau ar gyfer dibrisiad a nam ar asedau anghyfredol | 3,028 | 0 | 0 | 3,028 | (3,028) |
| Ailbrisio (colledion)/enillion ar Eiddo ac Offer | 3,604 | 0 | 0 | 3,604 | (3,604) |
| Amorteiddiad Asedau Anghyffwrddadwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wnaed | (841) | (337) | 0 | (1,178) | 1,178 |
| **Cynnwys yr eitemau heb eu debydu na'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | | |
| Darpariaeth Statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf | (2,356) | 0 | 0 | (2,356) | 2,356 |
| **Addasiadau'n bennaf yn ymwuend â Chronfa wrth Gefn Talebau Cyfalaf** | | | | | |
| Trosglwyddo elw gwerthiant ariannol a gredydwyd fel rhan o'r gwerthiant ennill/colli i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Defnydd o gronfa wrth gefn talebau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 | 0 | (25) | (25) | 25 |
| **Addasiad yn bennaf yn ymwneud a'r Cronfa wrth Gefn Pensiynau** | | | | | |
| Gwrthdroi eitemau'n berthnasol i fuddio ymddeol wedi'u debydu neu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 20) | 12,409 | 0 | 0 | 12,409 | (12,409) |
| Cyfraniadau pensiynau cyflogwyr a thaliadau uniongyrchol I bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | (3,577) | 0 | 0 | (3,577) | 3,577 |
| **Addasiad yn bennaf yn ymwneud a'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig** | | | | | |
| Swm y mae'r tâl swyddog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i dâl y gellir ei godi yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (57) | 0 | 0 | (57) | 57 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | 12,210 | (337) | (25) | 11,848 | (11,848) |

| 2016/17 | Cronfeydd wrth gefn gellid defnyddio | | | | Cronfeydd wrth gefn na ellid ddefnyddio |
|---|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa wrth GefnGyffredinol | Cronfa wrth Gefn Cyfalaf wedi'i glustnodi | Cronfa wrth Gefn Talebion Cyfalaf | Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn gellid defnyddio | Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn nas ellid defynyddnio |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Addasiadau'n bennaf yn ymwneud â Chyfrif Cyfalaf wedi'i addasu Gwrthdroi eitemau wedi'u debydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | | |
| Costau ar gyfer dibrisiad a nam ar asedau anghyfredol | 3,142 | 0 | 0 | 3,142 | (3,142) |
| Ailbrisio (colledion)/enillion ar Eiddo ac Offer | (753) | 0 | 0 | (753) | 753 |
| Amorteiddiad Asedau Anghyffwrddadwy | (20) | 0 | 0 | (20) | 20 |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wnaed | (186) | (400) | 0 | (586) | 586 |
| **Cynnwys yr eitemau heb eu debydu na'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | | |
| Darpariaeth Statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf | (2,553) | 0 | 0 | (2,553) | 2,553 |
| **Addasiadau'n bennaf yn ymwuend â Chronfa wrth Gefn Talebau Cyfalaf** | | | | | |
| Trosglwyddo elw gwerthiant ariannol a gredydwyd fel rhan o'r gwerthiant ennill/colli i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Defnydd o gronfa wrth gefn talebau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 | 0 | (20) | (20) | 20 |
| **Addasiad yn bennaf yn ymwneud a'r Cronfa wrth Gefn Pensiynau** | | | | | |
| Cyfraniadau pensiynau cyflogwyr a thaliadau uniongyrchol I bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | (3,642) | 0 | 0 | (3,642) | 3,642 |
| Gwrthdroi eitemau'n berthnasol i fuddio ymddeol wedi'u debydu neu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 20) | 8,930 | 0 | 0 | 8,930 | (8,930) |
| **Gwrth-droi eitemau a ddebydir neu a gredydir i'r Datganiad** | | | | | |
| Taliadau am ddibrisiad ac amhariad asedau anghyfredol | (766) | 766 | 0 | 0 | 0 |
| **Addasiad yn bennaf yn ymwneud a'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig** | | | | | |
| Swm y mae'r tâl swyddog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i dâl y gellir ei godi yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 41 | 0 | 0 | 41 | (41) |
| **Cyfanswm Addasiadau** | 4,193 | 366 | (20) | 4,539 | (4,539) |

## 8. TROSGLWYDDIADAU I AC O'R CRONFEYDD A GLUSTNODWYD

Mae'r Nodyn hyn yn rhestru'r trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn, ac ohonynt, ers 1 Ebrill 2015.

| | **Balans 1 Ebrill 2015 £000** | Trosglwy-ddiadau allan 2015/16 £000 | Trosglwy-ddiadau i mewn 2015/16 £000 | **Balans 31 Mawrth 2016 £000** | Trosglwy-ddiadau allan 2016/17 £000 | Trosglwy-ddiadau i mewn 2016/17 £000 | **Balans 31 Mawrth 2017 £000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | **(1,817)** | 0 | (852) | **(2,669)** | 549 | (30) | **(2,150)** |
| Cronfeydd wrth gefn grantiau a rhai a glustnodwyd | **(1,567)** | 409 | (3) | **(1,161)** | 430 | (820) | **(1,551)** |
| Cyfanswm | **(3,384)** | 409 | (855) | **(3,830)** | 979 | (850) | **(3,701)** |

**9. GWARIANT AC INCWM GWEITHREDU ERAILL**

| 2015/16 £000 | | 2016/17 £000 |
|---|---|---|
| 2 | Diffyg ar Weithrediadau Masnachu | 3 |
| (25) | Enillion wrth gael gwared ar asedau anghyfredol | (20) |
| 641 | Cyfraniad Cronfa Wrth Gefn | 0 |
| **618** | **Cyfanswm** | **(17)** |

**10. INCWM A GWARIANT CYLLID A BUDDSODDIADAU**

| 2015/16 £000 | | 2016/17 £000 |
|---|---|---|
| 466 | Llog yn daladwy a ffioedd tebyg | 512 |
| (7) | Llog | (6) |
| 8,078 | Llog Net ar yr ymrwymiad budd diffiniedig net | 7,694 |
| **8,537** | **Cyfanswm** | **8,200** |

**11. TRETHIANT AC INCWM GRANT AMHENODOL**

| Cyfraniad 2015/16 £ | Awdurdod | Cyfraniad 2016/2017 £ |
|---|---|---|
| 5,289,893 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 5,277,177 |
| 3,200,523 | Cyngor Sir Ynys Môn | 3,190,812 |
| 5,602,787 | Cyngor Gwynedd | 5,598,221 |
| 4,360,740 | Cyngor Sir Ddinbych | 4,363,962 |
| 7,033,548 | Cyngor Sir y Fflint | 7,022,578 |
| 6,398,354 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 6,433,093 |
| 31,885,845 | **CYFANSWM** | 31,885,843 |

## 12. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER AC ASEDAU ANNIRIAETHOL

Caiff yr asedau eu prisio fel yr amlinellir yn Nodyn 4 a Nodyn 17 o’r Polisïau Cyfrifyddu. Isod, ceir manylion yr asedau a oedd yn cael eu dal ar 31 Mawrth 2017 a ffigurau cymharol 31 Mawrth 2016, ynghyd â manylion symudiad yn ystod y flwyddyn:-

| 2016-2017 | ***Tir ac Adeiladau*** ***£'000*** | ***Cerbydau a Pheir-iannau*** ***£'000*** | ***Seilwaith*** ***£'000*** | ***Asedau wrthi’n cael eu hadeiladu*** ***£'000*** | ***Cyfanswm* Eiddo, Peiriannau ac Offer** ***£'000*** | ***Cyfanswm Asedau Anniriaethol*** ***£’000*** | ***Asedau a gedwir i’w gwerthu*** ***£’000*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2016 | 33,640 | 29,412 | 260 | 6,099 | 69,411 | 65 | 0 |
| **GWERTH AR 1 EBRILL 2016** | **33,640** | **29,412** | **260** | **6,099** | **69,411** | **65** | **0** |
| Ychwanegiadau | 1,050 | 673 | 0 | 718 | 2,441 | 501 | 0 |
| Ailddosbarthu Asedau sydd wrthi’n cael eu Hadeiladu | 6,096 | 0 | | (6,096) | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisio Gostyngiadau | (907) | 0 | 0 | 0 | (907) | 0 | 0 |
| Addasiad Blwyddyn Flaenorol | (1) | 0 | 0 | (1) | (2) | | 0 |
| Gwarediadau | 0 | (448) | 0 | 0 | (448) | 0 | 0 |
| Amhariad/Cyfalafu dan Statud | (1,039) | 0 | 0 | 0 | (1,039) | 0 | 0 |
| Asedau a gedwir i’w gwerthu | (411) | 0 | 0 | 0 | (411) | | 411 |
| **GWERTH LLYFR GROS AR 31 MAWRTH 2017** | **38,428** | **29,637** | **260** | **720** | **69,045** | **566** | **411** |
| Dibrisiad Cronedig ar 1 Ebrill 2016 | (714) | (14,990) | (247) | 0 | (15,951) | (65) | 0 |
| Ailbrisiad | 30 | 0 | 0 | 0 | 30 | 0 | 0 |
| Dibrisiad am y flwyddyn | (815) | (2,325) | (1) | 0 | (3,141) | 0 | 0 |
| Amhariad CCIG | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Amhariad Cronfeydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwarediadau | 0 | 448 | 0 | 0 | 448 | 0 | 0 |
| **Dibrisiad Cronedig ar 31 Mawrth 2017** | **(1,499)** | **(16,867)** | **(248)** | **0** | **(18,614)** | **(65)** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 31 MAWRTH 2017** | **36,929** | **13,271** | **12** | **720** | **50,431** | **501** | **411** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 31 MAWRTH 2016** | **32,926** | **14,422** | **13** | **6,099** | **53,460** | **0** | **0** |

| DATA CYMHAROL 2015-2016 | ***Tir ac Adeiladau*** **£'000** | ***Cerbydau ac Offer*** **£'000** | ***Seilwaith*** **£'000** | ***Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu*** **£'000** | ***Cyfanswm*** **Eiddo, Peiriannau ac Offer** ***£'000*** | ***Cyfanswm Asedau Annir-iaethol*** ***£'000*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2015 | 26,884 | 27,210 | 260 | 4,322 | 58,676 | 65 |
| **GWERTH AR 1 EBRILL 2015** | **26,884** | **27,210** | **260** | **4,322** | **58,676** | **65** |
| Ychwanegiadau | 3,589 | 1,623 | 0 | 4,756 | 9,968 | 0 |
| Ailddosbarthu Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu | 2,156 | 823 | 0 | (2,979) | 0 | |
| Ailbrisio Gostyngiadau | (3,152) | 0 | 0 | 0 | (3,152) | |
| Cynyddiadau Ailbrisio | 4,583 | 0 | 0 | 0 | 4,583 | |
| Gwarediadau | 0 | (244) | 0 | 0 | (244) | |
| Amhariad/Cyfalafu dan Statud | (420) | 0 | 0 | 0 | (420) | |
| **GWERTH LLYFR GROS AR 31 MAWRTH 2016** | **33,640** | **29,412** | **260** | **6,099** | **69,411** | **65** |
| Dibrisio Cronedig ar 1 Ebrill 2014 | (4,299) | (12,918) | (245) | 0 | (17,462) | (65) |
| Ailbrisio | 4,296 | 0 | 0 | 0 | 4,296 | 0 |
| Dibrisiad am y Flwyddyn | (711) | (2,316) | (2) | 0 | (3,029) | 0 |
| Amhariad CCIG | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Amhariad Cronfeydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwarediadau | 0 | 244 | 0 | 0 | 244 | 0 |
| Dibrisio Cronedig ar 31 Mawrth 2016 | **(714)** | **(14,990)** | **(247)** | **0** | **(15,951)** | **(65)** |
| GWERTH LLYFR NET AR 31 MAWRTH 2016 | **32,926** | **14,422** | **13** | **6,099** | **53,460** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 31 MAWRTH 2015** | **22,585** | **14,292** | **15** | **4,322** | **41,214** | **0** |

## 13. OFFERYNNAU ARIANNOL

Categorïau Offerynnau Ariannol

Mae'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn cael eu cario yn y Fantolen:

| | Tymor Hir | | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 | | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
| | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 |
| **Buddsoddiadau** | | | | | |
| Benthyciadau a swm sy'n dderbyniadwy | 0 | 0 | | 375 | 480 |
| Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **0** | **0** | | **375** | **480** |
| **Dyledwyr** | | | | | |
| Benthyciadau a swm sy'n dderbyniadwy | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| Asedau ariannol a wnaed ar gyfansymiau cytundeb | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledwyr** | **0** | **0** | | **0** | **0** |
| **Benthyciadau** | | | | | |
| Llog a gasglwyd | **0** | **0** | | 139 | 143 |
| Rhwymedigaeth ariannol ar gost armoteiddio | 14,350 | 16,216 | | 17,249 | 13,441 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **14,350** | **16,216** | | **17,388** | **13,584** |
| **Credydwyr** | | | | | |
| Rhwyedigaethau ariannol a wnaed ar gyfanswm | 0 | 0 | | 1,012 | 1,446 |

**Nodyn 1** – Dan y gofynion cyfrifyddu, mae gwerth i'w gario gwerth yr offeryn ariannol yn cael ei ddangos yn y fantolen, sy'n cynnwys y prif swm y cafwyd ei fenthyg neu a roddwyd i'w fenthyg, ac addasiadau pellach ar gyfer costau torri neu fenthyciadau llog fesul cam (wedi'i fesur gan gyfrifiad cyfraddau llog effeithiol) gan gynnwys llog cronedig. Dangosir y llog cronedig ar wahân yn yr asedau/ymrwymiadau cyfredol lle mae'r taliadau/derbyniadau'n ddyledus cyn pen blwyddyn. Y gyfradd log effeithiol yw'r llog cronedig effeithiol sy'n dderbyniadwy o dan yr offeryn, wedi'i addasu ar gyfer amorteiddio unrhyw bremiymau neu ddisgowntiau sy'n cael eu hadlewyrchu yn y pris prynu.

**Nodyn 2** – Mae gwerth teg yn cael ei fesur drwy'r canlynol:

- Cyfeirio'n uniongyrchol at y dyfynbrisiau a gyhoeddwyd mewn marchnad weithredol; a/neu
- Amcangyfrif gan ddefnyddio techneg brisio.

Pan mae asedau'n cael eu nodi fel rhai wedi'u hamharu oherwydd ei bod yn debygol, oherwydd digwyddiad yn y gorffennol, na fydd taliadau dan y contract yn cael eu gwneud, bydd yr ased yn cael ei ysgrifennu i lawr a rhoddir cost ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.
Bydd unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio o ddad-gydnabod yr ased yn cael eu credydu/debydu ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

Er nad oes angen darparu gwybodaeth fwy manwl, bydd angen gwybodaeth ychwanegol yn yr amgylchiadau canlynol, er mor annhebygol yw'r rheini:

- Unrhyw symudiadau anarferol;
- Ailddosbarthu offerynnau;
- Da-gydnabod offerynnau;
- Sicrwydd cyfochrog;
- Lwfans ar gyfer colledion credyd; a
- Diffyg-daliadau a thorri cytundebau.

Ceir esboniad manylach o’r rhain isod

**Enillion/Colledion Offerynnau Ariannol**

Dyma’r enillion a’r colledion sy’n cael eu cydnabod yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant mewn perthynas â’r offerynnau ariannol:

| **Enillion a Cholledion Offerynnau Ariannol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | | 2016/17 | |
| | Ymrwymiadau Ariannol Mesurir ymrwymiadau ar gost amorteiddiedig £000 | Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £000 | Ymrwymiadau Ariannol Mesurir ymrwymiadau ar gost amorteiddiedig £000 | Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £000 |
| Gwariant llog | 466 | | 510 | |
| **Cyfanswm y gwariant yn y Gwarged neu’r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **466** | | **510** | |
| Incwm llog | | (7) | | (6) |
| **Cyfanswm yr incwm yn y Gwarged neu’r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | **(7)** | | **(6)** |
| **Enillion net/(colledion) am y flwyddyn** | **(466)** | **7** | **(510)** | **6** |

**Benthyca Allanol**

Mae’r benthyciadau sy’n weddill wedi dod trwy’r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac ar y Marchnadoedd ariannol. Mae’r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad o’r benthyciadau yn ôl adeg aeddfedu. Mae’r tabl isod yn eithrio’r llog am y flwyddyn sy’n cael ei ddangos fel rhan o’r benthyciadau tymor byr sy’n weddill ar y fantolen. Mae’r llog yn £139k yn 2016/17 (£143k – 2015/16).

| ***Ffynhonnell y Benthyciad*** | ***Cyfradd Llog yn daladwy 2016/17 2015/16 %*** | ***Cyfyng-iadau cymerad-y Isafswm i Uchafswm %*** | ***Gwir % Mawrth 2016*** | ***Cyfanswm yn weddill at 31 Mawrth 2016 £'000*** | | ***Gwir % Mawrth 2017*** | ***Cyfanswm yn weddill ar 31 Mawrth 2017 £'000*** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau | 1.32 – 4.9 | | | | | | | 17,599 |
| Gwaith Cyhoeddus | 1.32 – 4.9 | | | | 19,657 | | | |
| Benthyciadau’r Farchnad | 0.28 – 0.45 | | | | | | | 14,000 |
| | 0.49 – 0.59 | | | | 10,000 | | | |
| **DADANSODDIAD O’R BENTHYCIADAU YN ÔL ADEG AEDDFEDU** | | 0% - 55% | 45.33 | | 13,443 | 54.59 | | 17,249 |
| O fewn 1 flwyddyn | | 0% - 50% | 10.18 | 3,018 | | 7.27 | 2,299 | |
| Rhwng 1 a 2 flynedd | | 0% - 50% | 20.31 | 6,024 | | 20.35 | 6,430 | |
| Rhwng 2 a 5 mlynedd | | 0% - 75% | 15.44 | 4,580 | | 9.72 | 3,070 | |
| Rhwng 5 a 10 mlynedd | | 0% - 100% | 8.74 | 2,592 | | 8.07 | 2,551 | |
| Dros 10 mlynedd | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | **29,657** | | | **31,599** |

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rheoli swyddogaeth y Trysorlys ar ran yr Awdurdod Tân ond mae'r holl fenthyciadau dan enw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## 14. GWERTH TEG ASEDAU AC YMRWYMIADAU SY'N CAEL EU CARIO AR GOST AMORTEIDDIEDIG

Mae'r ymrwymiadau ariannol a'r asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a derbyniadau yn cael eu cario ar y fantolen ar gost amorteiddiedig (mewn asedau/ymrwymiadau tymor hir gyda llog cronedig mewn asedau/ymrwymiadau cyfredol). Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian sy'n digwydd dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- O ran benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a benthyciadau eraill sy'n daladwy, mae benthyciadau gan y Bwrdd wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwerth teg dan weithdrefnau ad-dalu dyledion y Bwrdd;
- O ran benthyciadau a dderbynnir, defnyddiwyd y cyfraddau farchnad meincnod cyffredinol i ddarparu'r gwerth teg;
- Ni chydnabyddir ad-daliad cynnar nac amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu ymhen llai na 12 mis, neu pan fo'n swm masnach neu'n swm derbyniadwy arall, cymerir mai'r gwerth teg yw'r swm sy'n cario neu'r swm ar y bil;
- Cymerir mai gwerth teg swm masnach neu swm derbyniadwy arall yw'r swm ar yr anfoneb neu'r bil.

Dyma'r gwerthoedd teg a gyfrifir:

| | 31 Mawrth 2016 | | 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Swm cario £000** | **Gwerth Teg £000** | **Swm cario £000** | **Gwerth Teg £000** |
| Dyled y BBGC | 19,657 | 21,082 | 17,599 | 19,657 |
| Dyled nad yw i'r BBGC | 10,000 | 10,000 | 14,000 | 14,000 |
| **Cyfanswm y ddyled** | **29,657** | **31,082** | **31,599** | **33,657** |

Mae'r gwerth teg wedi cael ei gyfrifo gan gyfeirio'n benodol at ddyfynbrisiau a gyhoeddwyd mewn marchnad weithredol. Yn achos yr Awdurdod Tân, maent yn seiliedig ar bremiymau a fyddai'n daladwy pe ildiwyd benthyciadau'r BBGC ac maent yn darparu rhagamcan o'r llog ychwanegol sy'n daladwy i'w gymharu â'r un benthyciad ar gyfraddau cyfredol y farchnad â disgownt yn ôl i'r cyfnod presennol. Mae'r swm cludo yn eithrio'r llog cronedig fel yn nodyn 13.

## 15. RHESTRAU STOC

Isod, mae dadansoddiad o'r stoc a ddelir, a'r symudiadau yn ystod y flwyddyn fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2016 a 31 Mawrth 2017.

| | ***Prif Storfeydd*** | | ***Stoc Faniau Cludiant*** | | ***Cyfansymiau*** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ***2015/16 £'000*** | ***2016/17 £'000*** | ***2015/16 £'000*** | ***2016/17 £'000*** | ***2015/16 £'000*** | ***2016/17 £'000*** |
| Balans ar ddechrau'r flw | 457 | 504 | 14 | 14 | 471 | 518 |
| Pryniadau | 276 | 315 | 37 | 98 | 313 | 413 |
| Cydnabyddir fel Gwariar flwyddyn | (229) | (309) | (37) | (86) | (266) | (395) |
| **Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn** | **504** | **510** | **14** | **26** | **518** | **536** |

## 16. DYLEDWYR

Ffigyrau wedi'i ailddatgan ar gyfer 31 March 2016

| | ***31 Mawrth 2016 £'000*** | ***31 Mawrth 2017 £'000*** |
|---|---|---|
| Cyrff Llywodraeth Ganolog | 294 | 2,923 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 188 | 80 |
| Cyrff y GIG | 35 | 51 |
| Corfforaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Masnachu | 56 | 38 |
| Endidau ac Unigolion Eraill | 53 | 122 |
| **CYFANSWM DYLEDWYR** | **626** | **3,214** |

Mae ffigwr dyledwyr Cyrff Llywodraeth Ganolog ar gyfer Mawrth 2016 wedi ei ostwng o £553k oherwydd roedd yr arian sy'n ddyledus i'r Gronfa Bensiwn wedi cael ei or-ddatgan.

## 17. ARIAN A CHYFWERTH AG ARIAN

Mae'r arian gwirioneddol mewn llaw yn cynrychioli'r arian a ddangosir yn y Fantolen, ynghyd â'r trafodion nad effeithir arnynt o fewn y balans banc wedi ei glirio ar 31 Mawrth 2017. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r sefyllfa:-

| | ***31 Mawrth 2016 £'000*** | ***31 Mawrth 2017 £'000*** |
|---|---|---|
| Cyfrifon Galw Banc | 480 | 375 |
| Buddsoddiadau Tymor Byr | 0 | 0 |
| Cyfrifon Banc Cyfredol | 13 | (2) |
| Imprest Arian Mân | 2 | 2 |
| **Cyfanswm yr Arian a Chyfwerth ag Arian** | **495** | **375** |

## 18. CREDYDWYR

Ffigyrau wedi'i ailddatgan ar gyfer 31 March 2016

| | ***31 Mawrth 2016 £'000*** | ***31 Mawrth 2017 £'000*** |
|---|---|---|
| Cyrff Llywodraeth Leol | 96 | 193 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 184 | 822 |
| Corfforaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Masnachu | 61 | 144 |
| Cyrff y GIG | 1 | 33 |
| Endidau ac Unigolion Eraill | 1,713 | 1,364 |
| **CYFANSWM CREDYDWYR** | **2,055** | **2,556** |

Mae ffigwr Endidau ac Unigolion Eraill ar gyfer Mawrth 2016 wedi ei ostwng o £553k oherwydd roedd yr arian sy'n ddyledus i Pensiynwyr wedi cael ei or-ddatgan.

## 19. DARPARIAETHAU

Ar 31 Mawrth 2017, nid oedd yr Awdurdod yn dal unrhyw ddarpariaeth. Yn dilyn cau'r cyfrifon yn 2015/16, cafodd yr holl Ddarpariaethau eu hadolygu ac o ganlyniad i'r adolygiad nid oedd gofyniad mwyach i'r gwasanaeth ddal unrhyw ddarpariaethau.

## 20. CRONFEYDD DEFNYDDIADWY

**Cronfeydd Cyffredinol**

Doeth yw i'r Awdurdod ddal Cronfa Gyffredinol, a dyma'r meysydd lle disgwylir y bydd yn cael ei defnyddio:-

- codiadau cyflog;
- tanategu'r gyllideb ar gyfer 2017-18; a
- gostyngiad mewn arian grant.

Balans y gronfa ar 31 Mawrth 2017 yw £2.15 miliwn (31 Mawrth 2016, £2.669 miliwn). Mae'r gostyngiad yn y gronfa wedi digwydd o ganlyniad i ddefnyddio'r gronfa wrth gefn i danategu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016-17.

**Cronfeydd a Glustnodwyd**

Sefydlwyd nifer o gronfeydd a glustnodwyd ar gyfer cynlluniau y mae'r Awdurdod wedi cytuno i'w hariannu. Defnyddir cronfeydd a glustnodwyd ar gyfer nifer o brosiectau. Mae'r prif rai ar gyfer talu'r costau pontio ar gyfer y prosiect radio ac i ymorol am y gostyngiad yn y cyllid ar gyfer archwiliadau diogelwch tân yn y cartref. Ni chafodd y cronfeydd hyn eu defnyddio yn 2016-17 ond rhagwelir y byddant yn cael eu defnyddio yn 2017-18.

| | ***Balans 1 Ebrill 15 £'000*** | ***Trosglwydd-iadau i mewn/(allan) 15/16 £'000*** | ***Balans 31 Mawrth 16 £'000*** | ***Trosglwydd-iadau i mewn/(allan) 16/17 £'000*** | ***Balans 31 Mawrth 17 £'000*** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau | 169 | (69) | 100 | 0 | 100 |
| Cynllun Radio | 300 | 0 | 300 | 0 | 300 |
| Gostyngiad Grant/Hyfforddiant | 225 | 0 | 225 | (30) | 195 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer Llog | 100 | 0 | 100 | 0 | 100 |
| Cronfa Gyfalaf | 740 | (340) | 400 | (400) | 0 |
| Prynu Cerbydau | 0 | 0 | 0 | 53 | 53 |
| **Cyfansymiau** | **1,534** | **(409)** | **1,125** | **(377)** | **748** |

**Cronfeydd Grantiau**

Dan Safonau IFRS, mae unrhyw grantiau a dderbyniwyd gan yr Awdurdod ar gyfer cynlluniau penodol ond sydd heb gael eu defnyddio yn y flwyddyn yn cael eu dangos dan Gronfeydd Defnyddiadwy. Mae'r grantiau sydd wedi cael eu cario drosodd ar gyfer 2016-17 yn ymwneud â grantiau ar gyfer Cyfarpar Achub o Lifogydd a Dŵr (£723,600), Cydnerthedd (£36,512) a'r Tîm Cymorth Cymunedol (£42,799). Balans y gronfa ar 31 Mawrth 2017 yw £802,911 (31 Mawrth 2016 - £36,459- Grant Cydnerthedd).

| ***31 Mawrth 2016 £'000*** | | ***31 Mawrth 2017 £'000*** |
|---|---|---|
| 2,669 | Cronfeydd Cyffredinol | 2,150 |
| 1,125 | Cronfeydd a Glustnodwyd | 748 |
| 36 | Cronfeydd Grantiau | 803 |
| **3,830** | **Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy** | **3,701** |

## 21. CRONFEYDD ANNEFNYDDIADWY

| ***31 Mawrth 2016 £'000*** | | ***31 Mawrth 2017 £'000*** |
|---|---|---|
| 12,102 | Cronfa Ailbrisio | 9,676 |
| 7,513 | Cyfrif Addasu Cyfalaf | 8,038 |
| (250,612) | Cronfa Bensiynau | (304,626) |
| (200) | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | (241) |
| **(231,197)** | **Cyfanswm Cronfeydd Annefnyddiadwy** | **(287,153)** |

## Cronfa Ailbrisio

Mae'r Gronfa Ailbriso yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Beiriannau a'i Offer. Bydd y balans yn cael ei ostwng pan fo asedau gydag enillion cronedig yn:

- cael eu hailbrisio am i lawr, neu eu hamharu a'r enillion yn cael eu colli
- cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, a'r enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiad, neu
- cael eu gwaredu, a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Nid yw'r Gronfa ond yn cynnwys enillion cronedig ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad pryd y crëwyd y Gronfa. Mae enillion cronedig sy'n deillio cyn y dyddiad hwnnw'n cael eu cyfuno yn y balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Mae'r symudiad ar y gronfa wedi digwydd oherwydd gwaredu ased ac addasiad rhwng y Cyfrif Addasu Cyfalaf yn dilyn adolygiad o'r cofnodion cyfrifyddu am y blynyddoedd blaenorol.

| ***2015/16 £'000*** | ***Cronfa Ailbrisio*** | ***2016/17 £'000*** |
|---|---|---|
| **3,018** | **Balans ar 1 Ebrill** | **12,102** |
| 8,879 | Ailbrisio asedau am i fyny/Cael gwared ar y Dibrisiad | 25 |
| 458 | Addasiad o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf drwy CCIG | (2,160) |
| 0 | Addasiad o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf | 439 |
| (253) | Gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth teg a dibrisiad cost hanesyddol | (219) |
| 0 | Gwaredu Asedau net | (511) |
| **12,102** | **Balans ar 31 Mawrth** | **9,676** |

## Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sydd rhwng y trefniadau gwahanol ar gyfer rhoi cyfrif am dreuliant asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan y darpariaethau statudol. Debydir y Cyfrif gyda chost caffael, adeiladu neu wella gan fod dibrisiad, colled amhariad ac amorteiddiad yn cael eu codi ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant (gyda chofnodion cyson o'r Gronfa Ailbrisio i drosi ffigurau gwerth teg yn sail cost hanesyddol). Credydir y Cyfrif gyda'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel arian ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi, ac enillion a gydnabuwyd ar asedau rhoddedig sydd eto i gael eu treulio gan yr Awdurdod. Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion prisio a gronnwyd ar Eiddo, Peiriannau ac Offer cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad pryd y crëwyd y Gronfa Ailbrisio ar gyfer dal enillion o'r fath.

| 2015/16 | Cyfrif Addasiad Cyfalaf | 2016/17 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 10,784 | Balans 1 Ebrill | 7,513 |
| | **gwrthdroi eitemau sy'n berthnasol i wariant cyfalaf wedi'I ddebydu neu'i gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | |
| 0 | - Dileu dibrisiad drwy waredu ased | (25) |
| (6,346) | ▪ Taliadau am ddibrisiad ac amhariad asedau anghyfredol | (4,330) |
| (458) | ▪ Addasiad i'r Gronfa Ailbrisio drwy CCIG | 2,159 |
| | Trosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio | (439) |
| (6,804) | | (2,635) |
| (6,804) | Swm net wedi'i ysgrifennu allan o gost yr asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (2,635) |
| | **Cyllido cyfalaf a wnaed yn y flwyddyn** | |
| 25 | ▪ Defnydd o Gronfa Wrth Gefn Talebion Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 20 |
| 1,152 | ▪ Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gredydwyd i'r Datganiad Inwcm a Gwariant Cynhwysfawr a ddefnyddiwyd ar gyfer ariannu cyfalaf | 586 |
| 2,356 | ▪ Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a gostiwyd yn erbyn y cronfa gyffredinol | 2,553 |
| (3,271) | | 524 |
| **7,513** | **Balans 31 Mawrth** | **8,037** |

Mae’r nodiadau gwrthgyferbyniol ar gyfer Dibrisio, costau Amhariad ac Ailbrisio yn cael eu rhoi naill ai ar y Gronfa Ailbrisio neu’r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn ôl y meini prawf uchod. Mae’r tabl isod yn dangos y trafodion a wnaed ar y Gronfa Ailbrisio a’r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| *2015-16* | *Datganiad Ased Sefydlog (Nodyn 12)* | *Cronfa Ailbrisio* | *Cyfrif Addasu Cyfalaf* | *Cyfansymiau* |
|---|---|---|---|---|
| Dibrisiad | (3,028) | (254) | (2,774) | (3,028) |
| Amhariad | (420) | 0 | (420) | (420) |
| Ailbrisiadau | 5,727 | 8,879 | (3,152) | 5,727 |
| Dibrisiad Ailbrisiadau | (4,296) | (639) | (3,657) | (4,296) |
| Gwaredu Dibrisiad | 4,296 | 639 | 3,657 | 4,296 |
| Trosglwyddo rhwng cyfrifon | 0 | 458 | (458) | 0 |
| Cyfanswm | 2,279 | 9,083 | (6,804) | 2,279 |
| *2016-17* | *Datganiad Ased Sefydlog (Nodyn 12)* | *Cronfa Ailbrisio* | *Cyfrif Addasu Cyfalaf* | *Cyfansymiau* |
| Dibrisiad | (3,142) | (219) | (2,923) | (3,142) |
| Ailbrisiadau ac Amhariadau | (1,946) | (523) | (1,423) | (1,946) |
| Dibrisiad Ailbrisiadau | 12 | 12 | 0 | 12 |
| Gwaredu Dibrisiad | 0 | 25 | (25) | 0 |
| Trosglwyddo rhwng cyfrifon | 0 | (1,721) | 1,721 | 0 |
| Cyfanswm | (5,076) | (2,426) | 2,650 | (5,076) |

## Cronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau

Mae’r Gronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau yn amsugno’r gwahaniaethau amseru sy’n digwydd oherwydd y trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu buddion ôl-gyflogi a buddio ariannu yn unol â’r darpariaethau statudol. Mae’r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddion ôl-gyflogi yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant gan fod y buddion yn cael eu hennill gan weithiwyr sy’n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru’r ymrwymiadau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac adenillion buddsoddiadau ar unrhyw adnoddau a neilltuir i gwrdd â’r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fuddion a enillir gael eu hariannu gan fod yr Awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i’r cronfeydd pensiwn neu’n talu unrhyw bensiynau yn y pen draw y mae’n gyfrifol amdanynt. Felly, mae’r balans debyd ar y Gronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan weithwyr blaenorol a chyfredol a’r adnoddau y mae’r Awdurdod wedi eu neilltuo ar eu cyfer. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd arian wedi ei neilltuo erbyn yr adeg y bydd y buddion i’w talu.

| ***2015/16 £'000*** | ***SYMUDIADAU ar y GRONFA WRTH GEFN AR GYFER PENSIYNAU*** | ***2016/17 £'000*** |
|---|---|---|
| **(278,140)** | Balans Agoriadol 1 Ebrill | **(250,612)** |
| (12,409) | Gwrth-droi eitemau a ddebydir i Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | (8,930) |
| 3,577 | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn | 3,642 |
| 36,360 | Ailfesur yr ymrwymiad budd diffiniedig net | (48,726) |
| **27,528** | **SYMUDIAD AR Y GRONFA WRTH GEFN AR GYFER PENSIYNAU** | **(54,014)** |
| **(250,612)** | **BALANS TERFYNOL** | **(304,626)** |

## Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae’r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno’r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn digwydd ar falans y Gronfa Cyffredinol o ganlyniad i absenoldebau digolledol a enillwyd ond na chymerwyd yn y flwyddyn, e.e. hawl i wyliau blynyddol wedi ei gario drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol bod yr ardrawiad ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei niwtraleiddio trwy drosglwyddo i mewn neu allan o’r Cyfrif.

| ***2015/16 £’000*** | ***Cyfrif Absenoldebau Cronedig*** | ***2016/17 £’000*** |
|---|---|---|
| **(257)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(200)** |
| 257 | Setlo neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | 200 |
| (200) | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | (241) |
| **(200)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(241)** |

## 22. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| 2015/16 £'000 | | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| **11,395** | **(Gwarged)/Diffyg Net ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **4,689** |
| 47 | Cynnydd yn y Stoc | 18 |
| (395) | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Dyledwyr | 2,589 |
| 760 | Cynnydd)/(Gostyngiad) yn y Credydwyr | (501) |
| (3,028) | Cost Dibrisio | (3,142) |
| (195) | Cyfraniadau a Dderbyniwyd/Derbyniadau Cyfalaf | 0 |
| (7,862) | Addasiadau Pensiwn IAS 19 | (5,288) |
| (420) | Codi am Amhariad | (1,039) |
| 0 | Tynnu Wrecsam o Gronfa Ailbrisio | (511) |
| 0 | Colled ar Ailbrisio Wrecsam | (368) |
| 0 | Addasiad Ailbrisio Cyfrif Addasu Cyfalaf | 2,159 |
| 11 | Cyfraniad (i)/o Wahanol Ddarpariaethau | 0 |
| (3) | (Gostyngiad)/Cynnydd yn y Gronfa ar gyfer Grantiau | 766 |
| 852 | Trosglwyddiad i/(o) Gronfeydd wrth gefn | 0 |
| 57 | Cronfa wrth gefn Absenoldebau Cronedig | (41) |
| 0 | Diffyg a nodwyd/Addasiad | (7) |
| **(10,176)** | **Llai Cyfanswm**<br>**Addasiadau am eitemau sydd yn y (Gwarged) neu'r Diffyg net ar Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu** | **(5,365)** |
| (466) | Llog a dalwyd | (510) |
| 8 | Llog a gafwyd | 6 |
| **(458)** | **Llai Cyfanswm** | **(504)** |
| **761** | **Llif Arian net o Weithgareddau Gweithredu** | **(1,180)** |

## 23. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| *2015/16 £'000* | | *2016/17 £'000* |
|---|---|---|
| 9,968 | Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 2,942 |
| (25) | Elw o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | (20) |
| (1,152) | Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi | (186) |
| **8,791** | **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **2,736** |

## 24. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU ARIANNU

| *2015/16 £'000* | | *2016/17 £'000* |
|---|---|---|
| (30,314) | Derbyniadau arian parod o fenthyca tymor byr a thymor hir | (28,969) |
| 25,592 | Ad-dalu benthyca tymor byr a thymor hir | 27,029 |
| (2,415) | (Gostyngiad)/Cynnydd mewn cyfrifon galw a buddsoddiadau tymor byr (Nodyn 15) llai'r llog sy'n ddyledus | 0 |
| 0 | Taliadau eraill am weithgareddau ariannu | 504 |
| **(7,137)** | **Llif arian net o weithgareddau ariannu** | **(1,436)** |

## 25. GWEITHREDIADAU MASNACHU

Agorodd yr Awdurdod ei Orsaf Dân Gymunedol gyntaf yn Rhyl yn 2008-09. Mae'r cyfleuster yn darparu ystafelloedd cyfarfod ar gyfer y gymuned leol, a'r nod yw adennill costau ar yr incwm a dderbynnir o logi ystafelloedd a'r costau gweithredu. Mae'r crynodeb isod yn dangos yr holl incwm a gwariant am y flwyddyn hon a'r llynedd.

| *2015/16 £'000* | | *2016/17 £'000* |
|---|---|---|
| (33) | Trosiant | (28) |
| 35 | Gwariant | 31 |
| 2 | **Diffyg** | 3 |

## 26. LWFANSAU AELODAU

Yn ystod 2016-2017 talwyd swm o £70,016 (£69,971 yn 2015-2016) i'r Aelodau ar ffurf Lwfansau Aelodau a threuliau teithio. Mae gan yr Awdurdod 28 o Aelodau.

| **2015/16 £** | | **2016/17 £** |
|---|---|---|
| | Lwfansau Blwyddyn Lawn | |
| 10,400 | Cadeirydd | 10,400 |
| 5,400 | Is-gadeirydd | 5,400 |
| 5,400 | Cadeirydd Pwyllgor Archwilio | 5,400 |
| 1,700 | Aelod | 1,700 |
| **63,694** | Cyfanswm Lwfansau Aelodau a dalwyd | **63,167** |
| **6,277** | Cyfanswm Treuliau Aelodau a dalwyd | **6,113** |

## 27. TALIADAU SWYDDOGION

**TALIADAU I UWCH SWYDDOGION 2016-2017 – CYFLOG RHWNG £60,000 A £150,000**

| *TEITL SWYDD* | *Blwydd yn* | *CYFLOG (gan gynnwys ffioedd a lwfansau) £* | *TREULIAU A AD-DALWYD £* | *BUDD MEWN NWYDDAU (Darparu cerbyd) £* | *CYFAN-SWM (ac eithrio cyfraniad-au pensiwn) £* | *CYFRANIAD-AU PENSIWN £* | *CYFANSWM Y TALIADAU £* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddog Tân | 2015/16 | 121,081 | 126 | 6,652 | 127,859 | 0 | 127,859 |
| | 2016/17 | 122,292 | 126 | 6,143 | 128,561 | 33,655 | 162,216 |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân | 2015/16 | 95,232 | 150 | 4,446 | 99,828 | 25,066 | 124,894 |
| | 2016/17 | 100,387 | 215 | 4,835 | 105,437 | 27,659 | 133,096 |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 2015/16 | 87,477 | 148 | 4,602 | 92,227 | 23,027 | 115,254 |
| | 2016/17 | 88,352 | 170 | 5,756 | 94,278 | 24,343 | 118,621 |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 2015/16 | 84,366 | 169 | 3,093 | 87,628 | 21,505 | 109,133 |
| | 2016/17 | 89,035 | 126 | 2,942 | 92,103 | 22,704 | 114,807 |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Dros Dro | 2015/16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 2016/17 | 34,204 | 53 | 745 | 35,002 | 8,722 | 43,724 |
| Trysorydd – Swyddog Adran 151 | 2015/16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 2016/17 | 1,809 | 0 | 0 | 1,809 | 0 | 1,809 |

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw weithwyr sy'n derbyn cyflog sy'n uwch na £150k. Mae swydd dros dro Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yn bodoli ers Tachwedd 2016 (hyd oni hysbysir fel arall) ac mae'n ymorol am salwch tymor hir ar hyn o bryd. Nodir y swydd hon yn y tabl isod hefyd, gan fod cyfradd y cyflog parhaol yn dod o fewn y band cyflog £75,000 i £79,999.

Roedd y cynnydd yn y cyflog i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân am ddyletswyddau ychwanegol a gyflawnwyd fel y swyddog Adran 151 am y cyfnod hyd at Ragfyr 2016, a'r swm ychwanegol oedd £5,409.

Cafodd y Trysorydd ei benodi yn Ionawr 2017 a chafodd y taliad cyntaf ei wneud ym mis Mai 2017. Y swm yn y tabl yw'r swm oedd yn ddyledus am y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2017. Yn y blynyddoedd a fu, roedd y Trysorydd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth felly nid oedd yn un o weithwyr cyflogedig y Gwasanaeth Tân felly ni fyddai wedi cael ei gynnwys yn y tabl uchod.

Mae'r Swyddog Monitro'n cael ei ddarparu gan Gyngor Sir y Fflint fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth felly ni ddangosir unrhyw gostau ar gyfer unigolyn yn y tabl uchod.

Mae cyflogau'r Uwch Swyddogion (ac eithrio'r Trysorydd) yn cynrychioli'r union daliadau a wnaed yn 2016/17, a fydd yn cynnwys rhai elfennau o ôl-daliadau ar gyfer 2015/16. Eleni, cyfanswm yr ôl-daliadau oedd £1,655 ar gyfer cyflogau rhwng Ionawr a Mawrth 2016.

O ran y swyddogion sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae cyfraniad y cyflogwr yn cynnwys 12.8% o'u Cyflog yn ogystal â dosraniad o'r lwmp-swm sy'n daladwy i'r Gronfa Bensiwn yn seiliedig ar ganran o'r holl gyflog pensiynadwy.

Dyma nifer y gweithwyr yr oedd eu cydnabyddiaeth ariannol yn £60,000 neu fwy, mewn bandiau o £5,000:-

| ***BAND TALIAD*** | ***NIFER Y GWEITHWYR 2015/16*** | ***NIFER Y GWEITHWYR 2016/17*** |
|---|---|---|
| £80,000 - £84,999 | 0 | 0 |
| £75,000 - £79,999 | 0 | 2 |
| £70,000 - £74,999 | 4 | 1 |
| £65,000 - £69,999 | 0 | 0 |
| £60,000 - £64,999 | 0 | 2 |

Mae'r tâl yn cynnwys pob swm a dalwyd neu i'w dderbyn gan weithiwr, lwfansau treuliau, i'w godi ar dreth, a gwerth ariannol buddion. Nid yw'r data uchod yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r gymhareb rhwng tâl Prif Swyddog Tân a'r tâl canolrifol i staff y Gwasanaeth Tân:

| | ***2015/16 £*** | ***2016/17 £*** |
|---|---|---|
| Prif Swyddog Tân | 127,859 | 128,561 |
| Canolrif | 29,345 | 29,638 |
| Cymhareb | 4.36 | 4.34 |

Mae'r staff sy'n cael eu cyflogi dan Gontractau'r System RDS wedi cael eu cynnwys yn y cyfrifiad ar eu pwynt graddfa Cyfwerth â Llawn Amser yn hytrach na'u henillion gwirioneddol. Mae'r data uchod yn cynnwys cyfanswm y cyflog a dalwyd (ac eithrio cyfraniadau pensiwn).

Mae nifer y pecynnau ymadael gyda chyfanswm y gost fesul band a chyfanswm cost diswyddiadau eraill wedi'u nodi yn y tabl isod.  Ni fu unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn 2015-16 nac yn 2016-17.

| Band Cost Pecynnau Ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig) | Nifer yr Ymadawiadau y Cytunwyd arnynt | | Cyfanswm Cost Pecynnau Ymadael ymhob Band | |
|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2015/16 | 2016/17 |
| £0 - £20,000 | 1 | 0 | 5,685 | 0 |
| £20,000 - £40,000 | 0 | 3 | 0 | 79,176 |
| Cyfanswm | 1 | 3 | 5,685 | 79,176 |

## 28. COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Y ffioedd a oedd yn daladwy i'r archwilwyr statudol oedd £62,227 (2015/16 £65,300) am y gwasanaethau archwilio allanol a dderbyniwyd.

| | 2015/2016 £000 | 2016/2017 £000 |
|---|---|---|
| Ffioedd yn daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru am y gwasanaethau archwilio allanol a wnaethpwyd gan yr archwilydd penodedig | 65 | 62 |

## 29. GRANTIAU

Derbyniodd yr Awdurdod y grantiau refeniw canlynol:-

| | 2015/16 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| Airwave | 416 | 416 |
| Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol | 192 | 147 |
| Tîm Cymorth Cymunedol | 0 | 84 |
| Diffibrilwyr – Cyfarpar Cyd-ymateb | 148 | 0 |
| Datblygu Partneriaeth Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref | 25 | 0 |
| Ymyriadau | 127 | 153 |
| Cynnal a chadw offer NDG | 102 | 118 |
| Dimensiynau Newydd/Cymru Gydnerth | 264 | 2,000 |
| Y Ffenics | 396 | 361 |
| Swyddog Cydnerthedd | 53 | 62 |
| Mentrau Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd | 107 | 0 |
| Cydlynydd y Trydydd Sector | 11 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,841** | **3,341** |

## 30. PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae gan yr Awdurdod nifer o gysylltiadau â'r awdurdodau cyfansoddol:

- Mae pob Aelod o'r Awdurdod hefyd yn Aelod o un o'r awdurdodau cyfansoddol
- Mae Trysorydd yr Awdurdod yn gyn-Gyfarwyddwr Strategol – Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Erbyn hyn, mae'r swydd yn cael ei chyflogi'n uniongyrchol gan y Gwasanaeth Tân.
- Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint yw'r Swyddog Monitro.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rheoli swyddogaeth y Trysorlys ar ran yr Awdurdod Tân ac yn broceru benthyciadau'r Farchnad a buddsoddiadau ar ran yr Awdurdod. Y sefyllfa ar 31 Mawrth 2017 oedd fod Conwy, ar ran yr Awdurdod Tân, wedi broceru £14 miliwn mewn Benthyciadau'r Farchnad. Mae Conwy hefyd yn darparu Gwasanaethau Cyfreithiol i'r Awdurdod.

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn darparu gwasanaeth pensiwn i'r Awdurdod, yn benodol ar gyfer cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru rai trefniadau ar y cyd â'r Awdurdod, sy'n cynnwys Adran Reoli Ystadau ar y cyd, rhannu ystafell reoli a gweithio mewn partneriaeth ar nifer o brosiectau.

Yn ystod y flwyddyn bu trafodion gyda phartïon cysylltiedig fel y dangosir isod.

| | *£'000* |
|---|---|
| Cyngor Sir y Fflint – Swyddog Monitro | 14 |
| CBS Conwy – Gwasanaethau Ariannol | 112 |
| CBS Conwy – Gwasanaethau Cyfreithiol | 10 |
| Cyngor Sir Gaerfyrddin – Gwasanaeth Pensiwn | 40 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 19 |
| Heddlu Gogledd Cymru – Rheoli Cyfleusterau | 141 |
| Heddlu Gogledd Cymru – Caffael | 8 |

Nid oedd unrhyw falansau'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn.

Gofynnwyd i Aelodau ac uwch swyddogion yr Awdurdod ddatgan unrhyw drafodion trydydd parti yn ystod y flwyddyn. Bu i ddau gyn-aelod o'r Awdurdod fethu ag ymateb, Chris Hughes a W Tudor Owen, felly mae'n bosib nad yw'r datgeliadau yn gyflawn. Fodd bynnag, mae'r risg sy'n gysylltiedig â'r methiant i ddatgelu'r wybodaeth yn isel yn yr achos hwn. Ac eithrio lwfansau a threuliau'r aelodau, ni nodwyd unrhyw drafodion eraill.

Lluniwyd y nodyn hwn yn unol â'r dehongliad a'r ddealltwriaeth gyfredol o IAS 24 a'r modd y mae'n gymwys i'r sector cyhoeddus.

## 31. GWARIANT AC ARIANNU CYFALAF

Nodir isod y gwariant cyfalaf a gafwyd yn ystod y flwyddyn, a'r ardrawiad ar y Gofyniad Ariannu Cyfalaf:-

| *2015/16 £'000* | | *2016/17 £'000* |
|---|---|---|
| 27,444 | Gofyniad Agoriadol Ariannu Cyfalaf | 33,879 |
| | Buddsoddiad Cyfalaf yn y flwyddyn | |
| | • Asedau Sefydlog | |
| 9,968 | Ffynonellau cyllid | 2,942 |
| (170) | • Grantiau a Chyfraniadau | (186) |
| (3,363) | • Refeniw a Darpariaethau Eraill | (2,973) |
| 33,879 | Gofyniad Terfynol Ariannu Cyfalaf | 33,662 |
| **6,435** | Newid mewn Gofyniad Ariannu Cyfalaf | **(217)** |
| | Esboniad o'r newid: | |
| 6,435 | Cynnydd yn yr angen gwaelodol i fenthyca | (217) |

Dyma'r Gwariant Cyfalaf yn ystod y flwyddyn:

| Cynllun | £000 |
|---|---|
| Adnewyddu Gorsafoedd | 1,053 |
| Cerbydau | 983 |
| Offer yr Ochr Weithredol a TGCh | 906 |
| Cyfanswm | 2,942 |

**YMRWYMIADAU CYFALAF 2016-2017 AC YMLAEN**

Roedd yr ymrwymiadau cyfalaf a drefnwyd, fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2017, ar gyfer uwchraddio'r system Gorchymyn a Rheoli a'r Tendrau Dŵr. £1.48 miliwn yw gwerth cyfunol y contractau.

**ARIANNU GWARIANT CYFALAF**

Cafodd y gwariant cyfalaf yn y flwyddyn ei ariannu fel a ganlyn:

| | 2015/16 £000 | 2016/17 £000 |
|---|---|---|
| Benthyciadau Allanol | 4,708 | 1,941 |
| Arian Grant | 170 | 186 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 25 | 20 |
| Benthyca Mewnol | 4,083 | 395 |
| Cyfraniad o'r Gronfa Gyfalaf | 982 | 400 |
| Cyfanswm | 9,968 | 2,942 |

## 32. LESOEDD

**Lesoedd Cyllid**

Mae'r Awdurdod wedi cael gorsaf dân Wrecsam dan les cyllid yn 2016/17. Mae'r ased a gafwyd dan y les yn cael ei chario ar y Fantolen dan Eiddo, Peiriannau ac Offer gyda gwerth net o £5.98 miliwn.

**Lesoedd Gweithredu**

Nid oedd gan yr Awdurdod ymrwymiad i weithredu taliadau les fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2017 na 31 Mawrth 2016. Cyn dyfodiad y Cod Ariannol yn 2003, roedd yr Awdurdod yn ariannu'r rhan fwyaf o'i asedau oes fer drwy brydlesu. Yn dilyn dyfodiad y cod, roedd yr Awdurdod yn rhydd i ddewis y ffordd fwyaf cost-effeithiol o ariannu ei asedau. Mae hyn wedi arwain at symud oddi wrth brydlesu fel dull o ariannu a symud i gyfeiriad prynu'n uniongyrchol. Daeth yr ymrwymiadau les diwethaf i ben yn 2013-14.

## 33. BUDDION TERFYNU

Terfynodd yr Awdurdod dri chontract yn 2016-17 ac un yn 2015-16. Roedd costau terfynu yn daladwy yn 2016-17, sef £79,175 (£5,686 yn 2015-16). Byddai unrhyw gostau wedi eu codi o fewn y flwyddyn a'r unig ymrwymiadau ar gyfer y dyfodol fydd pensiynau.
Roedd yr holl daliadau oherwydd ymarferiad ailstrwythuro adrannau. Byddai'r ymrwymiadau hyn wedi eu cynnwys o fewn yr ymrwymiadau pensiynau dan IAS 19, ac o fewn Nodyn 34 datgelu pensiynau isod.

## 34. TRAFODION YN YMWNEUD Â BUDDION ÔL-GYFLOGAETH

### Pensiynau

(i) **Staff Gwasanaethau Llywodraeth Leol a'r Ystafell Reoli**

Yn 2016-2017, talodd yr Awdurdod gyfraniad Pensiwn Cyflogwr o 1,287,330 (2015-2016, £1,134,204) sy'n 12.8% (2015-2016,11.9%) o gyflog pensiynadwy gweithwyr, ac roedd yn cynnwys taliad lwmp-swm o of £686,100 (2015-16, £613,900) i Gronfa Bensiwn Clwyd, sy'n talu buddion diffiniedig i aelodau sy'n gysylltiedig â chyflog a gwasanaeth. Pennir cyfradd y cyfraniad gan Actiwari'r Gronfa, yn seiliedig at werth actiwaraidd tair blynedd, gyda'r adolygiad diwethaf ar 31 Mawrth 2016. Yn dilyn yr adolygiad, mae cyfraniad y cyflogwr yn mynd i godi'n gynyddrannol o 12.8% i 14.7% erbyn 2017-18.. Dan y Rheoliadau Pensiynau cyfredol, mae cyfraddau'r cyfraniadau'n cael eu gosod i gwrdd â 100% o'r atebolrwydd cyffredinol i'r Gronfa.

Yn ystod 2016-2017, roedd y buddion blynyddoedd ychwanegol a chostau ymddeoliadau cynnar oherwydd diswyddiadau, £17,156 (2015-2016, £10,248) a dalwyd i weithwyr, sef 0.37% (2015-2016, 0.24%) o gyflog pensiynadwy gweithwyr. Amcangyfrifir y bydd y cyfraniadau pensiwn sydd i'w talu i'r cynllun am flwyddyn ariannol 2017-18 yn £2,856,000 ar gyfer y cyflogwr.
Gellir cael rhagor o wybodaeth am Gronfa Bensiwn Clwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa Bensiynau sydd ar gael ar gais gan Drysorydd y Sir yng Nghyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug CH7 6NA neu ar y wefan, www.siryfflint.gov.uk.

(ii) **Diffoddwyr Tân**

Mae cynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun gyda buddion penodol, nad yw'n cael ei ariannu. Yn 2016-2017, talodd yr Awdurdod gyfraniad Pensiwn Cyflogwr o £1,966,398 (2015-16, £1,978,280). Roedd y pensiynau a dalwyd o'r refeniw yn £391,793 (2015-2016 £454,955). Yn 2017-2018, amcangyfrifir mai cyfraniad y cyflogwr i'r cynllun fydd £2,003,000 a'r amcangyfrif am bensiynau a dalwyd o'r refeniw fydd £423,300. Mae'r rhan fwyaf o'r taliadau pensiwn i ddiffoddwyr tân sydd wedi ymddeol yn cael eu talu o gyfrif Cronfa Bensiwn sy'n cael ei weinyddu gan yr Awdurdod, ac mae manylion y Gronfa a sut mae'n gweithredu i'w cael ar dudalen 45.

### Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 – Buddion Ymddeol

Yn unol â gofynion y Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol Rhif 19 – Buddion Ymddeol (IAS19), mae'n rhaid i'r Awdurdod ddatgelu rhywfaint o wybodaeth am asedau, ymrwymiadau, incwm a gwariant yn ymwneud â chynlluniau pensiwn i'w weithwyr. Fel yr esbonnir yn Nodyn 33, mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer Diffoddwyr Tân llawn amser sydd heb ei ariannu, a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cronfa Bensiwn Clwyd) ar gyfer gweithwyr eraill, sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir y Fflint. Hefyd, mae'r Awdurdod wedi gwneud trefniadau ar gyfer talu blynyddoedd ychwanegol i weithwyr sydd wedi ymddeol y tu allan i ddarpariaethau'r cynlluniau.

Er mwyn cydymffurfio ag IAS19, bydd yr Awdurdod yn penodi actiwariaid yn flynyddol i asesu asedau ac ymrwymiadau'r ddau gynllun. Penodwyd Mercer i asesu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac Adran Actiwari'r Llywodraeth i asesu cynllun y diffoddwyr tân gan eu bod yn ymwneud â gweithwyr blaenorol a chyfredol Awdurdod Tân Gogledd Cymru. O ran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, asesodd yr actiwari mai ymrwymiad net yr Awdurdod fel ar 31 Mawrth 2017 oedd was £15.176 miliwn (31 Mawrth 2016, £11.422 miliwn) ac ar gyfer Cynllun y Diffoddwyr Tân, yr ymrwymiad oedd £289.45 miliwn fel ar 31 Mawrth 2017 (31 Mawrth 2016 £239.19 miliwn). Isod, ceir dadansoddiad o asedau ac ymrwymiadau'r ddau gynllun a'r rhagdybiaethau a wnaed yn y cyfrifiadau actiwaraidd.

**Trafodion yn ymwneud â Buddion Ymddeol a gydnabyddir yn y cyfrifon**

| | ***Wedi eu hariannu*** | | ***Heb eu hariannu*** | |
|---|---|---|---|---|
| | ***2015/16*** ***£'000*** | ***2016/17*** ***£'000*** | ***2015/16*** ***£'000*** | ***2016/17*** ***£'000*** |
| Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | | | | |
| **Cost Gwasanaeth Net** | | | | |
| Cost Gyfredol Gwasanaeth | (1,060) | (1,044) | (5,220) | (3,660) |
| Cost Gwasanaeth Blaenorol a Threuliau | 0 | (54) | 0 | (110) |
| Gweinyddu | (436) | (387) | (8,750) | (8,440) |
| Incwm a Gwariant Ariannu & Buddsoddi | | | | |
| Llog Net | 0 | 0 | (550) | (20) |
| Trosglwyddiadau (i mewn)/ allan o’r cynllun | | | | |
| Yr holl fudd diffiniedig a godir ar ddarparu gwasanaeth | (1,496) | (1,485) | (14,520) | (12,230) |
| **Costau Pensiwn Eraill a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant** | | | | |
| Adenillion ar Asedau (ac eithrio Llog) | 1,086 | 1,133 | 0 | 0 |
| Ailfesuriadau | 1,720 | (3,566) | 34,640 | (45,160) |
| Yr holl gostau pensiwn a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | 1,310 | (3,918) | 20,120 | (57,390) |
| **Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd** | | | | |
| Gwrth-droi Ffioedd yn unol â’r Cod | 12,409 | 8,930 | | |
| **Symiau Gwirioneddol a godir ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn** | | | | |
| Cyfraniadau Cyflogwr | 3,577 | 3,655 | | |
| Addasiadau ar gyfer y Grant Atodol | 3,002 | 4,685 | | |

**IAS 19 Addasiad Pensiwn i gost Net y Gwasanaeth – Cyfrif Incwm a Gwariant**

| ***Addasiad i Gost Net Gwasanaeth*** | ***2015/16*** ***£'000*** | ***2016/17*** ***£'000*** |
|---|---|---|
| Costau Gwasanaeth Cyfredol | 6,280 | 4,704 |
| Costau Gwasanaeth Blaenorol a chostau Gweinyddu | 0 | 164 |
| Cyfraniadau’r Cyflogwr | (3,577) | (3,655) |
| Grant Atodol | (3,002) | (4,685) |
| Addasiad Actiwaraidd/Cwtogiad | 15 | 1,234 |
| Gwerth Trosglwyddiadau i mewn | 0 | (168) |
| **Addasiad i gost Net Gwasanaeth** | **(284)** | **(2,406)** |

Dyma asedau ac ymrwymiadau pensiwn a gydnabyddir yn y fantolen sy'n deillio o rwymedigaeth yr Awdurdod o ran ei gynllun buddion diffiniedig:

| | ***31 Mawrth*** | |
|---|---|---|
| | ***2016 £'000*** | ***2017 £'000*** |
| Gwerth Presennol Amcangyfrifiedig yr ymrwymiad budd diffiniedig yng Nghronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân | 239,190 | 289,450 |
| Gwerth Presennol Amcangyfrifiedig yr ymrwymiad budd diffiniedig yng Nghronfa Bensiwn Clwyd | 31,660 | 40,030 |
| **Cyfanswm Cyfran Amcangyfrifiedig yr ymrwymiadau** | **270,850** | **329,480** |
| Cyfran Amcangyfrifiedig yr asedau yng Nghronfa Bensiwn Clwyd | (20,238) | (24,854) |
| **Diffyg Pensiynau Net** | **250,612** | **304,626** |

**Asedau ac Ymrwymiadau mewn perthynas â Buddion Ôl-gyflogaeth**

Ail-gysoni gwerth presennol ymrwymiadau'r cynllun (rhwymedigaeth buddion diffiniedig):

| **Ymrwymiadau** | ***2015/16 £'000 Clwyd*** | ***2015/16 £'000 Diffoddwyr tân*** | ***2016/17 £'000 Clwyd*** | ***2016/17 £'000 Diffoddwyr tân*** |
|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | (32,249) | (265,350) | (31,660) | (239,190) |
| Cost Gyfredol y Gwasanaeth | (1,060) | (5,220) | (1,044) | (3,660) |
| Gwerth Trosglwyddiadau | 0 | (550) | 0 | (20) |
| Llog | (1,086) | (8,750) | (1,133) | (8,440) |
| Cwtogiadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Colled/Enillion Actiwaraidd | 2,193 | 34,640 | (6,508) | (45,160) |
| Buddion a dalwyd | 810 | 7,410 | 635 | 8,540 |
| Cyfraniad Aelodau | (268) | (1,370) | (320) | (1,410) |
| **Ymrwymiadau Pensiwn Net ar ddiwedd y flwyddyn** | **(31,660)** | **(239,190)** | **(40,030)** | **(289,340)** |

Mae'r enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun yn cael eu pennu drwy ystyried yr enillion disgwyliedig ar yr asedau sy'n sail i'r polisi buddsoddi cyfredol. Mae'r arenillion disgwyliedig ar fuddsoddiadau llog sefydlog yn seiliedig ar arenillion adbryniant gros, fel y maent ar ddyddiad y Fantolen. Cysoniad o werth teg Asedau'r cynllun, mae hyn yn ymwneud â Chronfa Bensiwn Clwyd yn unig:

| **Asedau** | ***2015/16 £'000*** | ***2016/17 £'000*** |
|---|---|---|
| Balans 1 Ebrill | 19,459 | 20,238 |
| Llog ar Asedau Cynllun | 672 | 746 |
| Ailfesuriadau/Gweinyddu | (495) | 2,888 |
| Cyfraniadau Cyflogwr | 1,144 | 1,297 |
| Cyfraniadau Aelodau | 268 | 320 |
| Buddion a dalwyd | (810) | (635) |
| **Asedau Pensiwn Net ar ddiwedd y flwyddyn** | **20,238** | **24,854** |

Mae'r cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei ariannu ac felly mae wedi adeiladu asedau dros y blynyddoedd i gynhyrchu incwm i gwrdd ag ymrwymiadau yn y dyfodol. Mae'r asedau yng Nghronfa Bensiwn Clwyd yn cynnwys:

| Categori Asedau | Prisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2016 | | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | % | | £'000 | % |
| **Gwarantau Ecwiti** | | | | | | |
| Dyfynnwyd yn Fyd-eang | I | 1,437 | 7.1 | | 1,914 | 7.7 |
| Heb ei nodi Fyd-eang | N | - | 0.0 | | - | 0.0 |
| Marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg | I | 1,154 | 5.7 | | 1,541 | 6.2 |
| Ffiniol | I | 385 | 1.9 | | 0 | 0.0 |
| **Bondiau** | | | | | | |
| Eraill Tramor | N | 2,489 | 12.3 | | 2,958 | 11.9 |
| BDA | I | 4,614 | 22.8 | | 5,791 | 23.3 |
| **Eiddo** | | | | | | |
| DU | I | 607 | 3.0 | | 1,118 | 4.5 |
| Tramor | N | 992 | 4.9 | | 572 | 2.3 |
| **Eraill** | | | | | | |
| Cronfeydd Gwrychoedd/Ecwiti Preifat/Nwyddau/DATB | I | 8,358 | 41.3 | | 10,736 | 43.2 |
| **Arian a Chyfwerth Arian** | | | | | | |
| I gyd | I | 202 | 1.0 | | 224 | 0.9 |
| **Cyfanswm** | **0** | **20,238** | **100** | | **24,854** | **100** |

Gellir cael manylion am y newidiadau yn rheolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan gynnwys newid o fuddion cyflog olaf i fuddion ailbrisiedig cyfartaledd gyrfa am wasanaeth o 1af Ebrill 2014 ymlaen, ar y ddolen ganlynol: http://www.lgps.org.uk/lge/core/page.do?pageId=97977

Dadansoddiad Sensitifrwydd

Petai'r rhagdybiaethau'n newid, byddai'r effaith ar y data canlynol yn y tabl.

| | CPLlL % Newid | Effaith CPLlL £ Miliwn | Diffoddwyr tân % Newid | Effaith diffoddwyr tân £ Miliwn |
|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Disgowntio | +0.1 | (0.832) | -0.5 | (26.5) |
| Cyfradd Cynnydd mewn Cyflogau | +0.1 | 0.26 | +0.5 | 3.2 |
| Cyfradd Cynnydd mewn Pensiwn | +0.1 | 0.85 | +0.5 | 24.6 |
| Disgwyliad Oes + 1 Flwyddyn | 1 | 0.75 | 1 | 8.1 |

### Y Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau ac Ymrwymiadau

Mae gwerth yr ymrwymiadau wedi eu seilio'n actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol sy'n asesu ymrwymiadau'r cynllun yn y dyfodol gyda disgownt i'w gwerth presennol. Mae gwerth Cynllun y Diffoddwyr Tân wedi ei wneud gan Adran Actiwaraidd y Llywodraeth ac mae gwerth ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Clwyd wedi ei wneud gan Mercer, sef cwmni annibynnol o actiwariaid. Dyma'r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau:

| | ***Cynllun y Diffoddwyr Tân*** | | ***Cronfa Bensiwn Clwyd*** | |
|---|---|---|---|---|
| | ***2016 %*** | ***2017 %*** | ***2016 %*** | ***2017 %*** |
| Cyfradd Chwyddiant | 2.2 | 2.35 | 2.0 | 2.3 |
| Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau | 4.2 | 4.35 | 3.5 | 3.55 |
| Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau | 2.2 | 2.35 | 2.0 | 2.3 |
| Cyfradd Gostwng Ymrwymiadau'r Cynllun | 3.55 | 2.65 | 3.6 | 2.6 |
| | Disgwyliad oes Amcangyfrif 31 Mawrth 2017 | | | |
| Disgwyliad oes yn 65 | Dynion | Merched | Dynion | Merched |
| Pensiynwyr Cyfredol | 22.4 | 22.4 | 23 | 25.5 |
| Pensiynwyr yn y Dyfodol | 24.7 | 24.7 | 25.6 | 28.2 |

Mae Cynllun y Diffoddwyr Tân yn gynllun sydd heb ei ariannu, felly nid yw'n dal asedau i greu incwm i gwrdd ag ymrwymiadau'r cynllun. Mae'r cyllid ar gyfer taliadau'r cynllun yn dod gan gyfraniadau'r cyflogwyr a'r gweithwyr yn y flwyddyn, a grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru.

## 35. NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae amcanion yr Awdurdod yn ei wneud yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

**Risg Credyd**

Dyma'r posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod. Mae'r risg credyd uchaf yn ymwneud â buddsoddiadau, a rheolir y rhain trwy Strategaeth Rheoli'r Trysorlys fel y nodir uchod. Yn y farchnad gyfredol, nid yw'r Awdurdod ond yn buddsoddi ar gyfer y tymor byr, hyd at uchafswm o 3 mis, a hynny gyda sefydliadau sydd ar restr partïon i gontract yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf bob dydd am unrhyw newidiadau i statws credyd y sefydliadau ar restr y partïon i gontract, ac os bydd unrhyw sefydliadau'n cael eu hisraddio ac yn methu â chwrdd â'r meini prawf sydd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, byddant yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr. Os bydd sefydliad yn methu ag ad-dalu buddsoddiad, yna gallai'r golled ariannol i'r Awdurdod fod yn uwch na £1 miliwn. Fodd bynnag, oherwydd bod y portffolio'n cael ei reoli'n ofalus, nid oes yr un sefydliad wedi methu ag ad-dalu arian sy'n ddyledus.

**Risg Hylifedd**

Dyma'r posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod ddigon o arian ar gael i ateb ei ymrwymiadau i wneud taliadau.

Mae'r Awdurdod yn gallu cael gafael yn rhwydd ar fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ac nid oes unrhyw risg sylweddol na fyddai'n gallu codi'r arian i gwrdd â'i ymrwymiadau dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod yn rhwym o ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg o gyfraddau llog anffafriol.

**Risg y Farchnad**

Dyma'r posibilrwydd y gallai colled ariannol ddigwydd i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel cyfraddau llog a symudiadau ar y farchnad stoc.

Gwnaed asesiad o effaith ariannol 1% o gynnydd mewn cyfraddau llog; byddai'r llog ar fenthyciad cyfradd amrywiol wedi cynyddu £100k; a byddai'r llog oddi ar fuddsoddiadau wedi cynyddu £105k.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, sy'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fesurau i reoli'r risgiau uchod. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, cafodd yr Aelodau adroddiad sy'n amlinellu'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys i'w dilyn yn y flwyddyn, a gosod y Dangosyddion Darbodus am y flwyddyn. Hanner ffordd drwy'r flwyddyn, ceir adroddiad yn nodi cynnydd o'i gymharu â'r strategaeth, ac os oes angen, adolygiad o'r Dangosyddion Darbodus. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r adroddiad terfynol yn nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Mae'r ffordd y mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol yn cael ei nodi yn adroddiadau'r trysorlys a gyflwynir i'r Aelodau, a gellir eu cael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sef www.gwastan-gogcymru.org.uk.

## 36. ASEDAU AMODOL

Prynodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru nifer o unedau larwm mwg gan gyflenwr penodol. Canfuwyd bod nifer o'r unedau a brynwyd yn ddiffygiol ac mae'r gwasanaeth wedi gorchymyn cyfreithwyr allanol i fwrw ymlaen â hawliad yn erbyn y cwmni. Disgwylir y gallai'r swm y gellid ei hadfer fod yn fwy na £150k. Cafodd y cyllid ar gyfer yr unedau ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a disgwylir na fydd Llywodraeth Cymru yn hawlio unrhyw arian a fydd yn cael ei adfer. Yn hytrach, bydd yr arian ar gael i'w wario gan y gwasanaeth yn unol ag amodau a osodwyd gan y corff ariannu.

# CYFRIF CRONFA BENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

| *Cyfrif y Gronfa* | *2015/16 £000* | *2016/17 £000* |
|---|---|---|
| **INCWM** | | |
| **Cyfraniadau Derbyniadwy:** | | |
| Cyfraniadau arferol y Cyflogwr | (1,978) | (1,966) |
| Cost Afiechyd y Cyflogwr | (67) | (55) |
| Cyfraniadau arferol yr Aelodau | (1,370) | (1,402) |
| Cyfraniadau Aelodau wedi'u Hôl-ddyddio | (209) | (170) |
| Trosglwyddiadau i mewn | (546) | (126) |
| **CYFANSWM** | **(4,170)** | **(3,719)** |
| **GWARIANT** | | |
| **Buddion Taladwy:** | | |
| Taliadau Pensiwn | 6,190 | 6,586 |
| Cymudo buddion Pensiynau a Lwmp-swm | 982 | 1,694 |
| Taliadau Cymudo wedi'u Hôl-ddyddio | 1,340 | 106 |
| **Taliadau i Ymadawyr, ac ar eu rhan:** | | |
| Trosglwyddiadau allan | 0 | 18 |
| **CYFANSWM** | **8,512** | **8,404** |
| **SWM NET (TALIADWY)/DERBYNIADWY CYN Y GRANT YCHWANEGOL** | **4,342** | **4,685** |
| Grand Ychwanegol gan Lywodraeth Cymru | (3,806) | (4,685) |
| Grant Atodol a dalwyd gan Drysorlys EM ar ran y Gronfa Bensiwn | (536) | 0 |
| **SWM NET (TALADWY)/DERBYNIADWY AM Y FLWYDDYN** | **0** | **0** |

| *Datganiad Asedau Net* | *2015/16 £000* | *2016/17 £000* |
|---|---|---|
| **Asedau ac Ymrwymiadau Cyfredol Net:** | | |
| Rhagdaliadau i Bensiynwyr | 0 | (574) |
| Grant Ychwanegol yn daladwy (oddi wrth) /i Lywodraeth Cymru | 40 | (1,435) |
| Swm yn ddyledus (o'r) / i'r Gronfa Gyffredinol | (40) | 2,009 |
| **Asedau Net ar ddiwedd y flwyddyn** | **0** | **0** |

**<u>Nodiadau i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân</u>**

Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 2007, ac mae'n ymorol am Gronfeydd Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992, 2007 a 2015, a'r Awdurdod sy'n ei gweinyddu. Telir cyfraniadau'r cyflogwr a gweithwyr i'r Gronfa, a gwneir taliadau i bensiynwyr ohoni. Mae lefelau cyfraniadau'r gweithwyr a'r cyflogwr yn seiliedig ar ganrannau o'r cyflog pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn agored i ailwerthusiad bob tair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cynllun yn un nad yw'n cael ei ariannu, nid oes ganddo asedau buddsoddi, a bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y buddion sy'n daladwy a'r cyfraniadau derbyniadwy, yn cael ei ateb gan Grant Ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Trosglwyddiadau i'r cynllun yw trosglwyddo buddion pensiwn o gynllun pensiwn arall ar gyfer gweithwyr newydd neu bresennol, a throsglwyddiadau allan yw trosglwyddo buddion i weithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod ac wedi ymuno â chynllun pensiwn arall.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am dalu cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa, a dyma'r costau a gynhwysir yn y cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod.

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin, yn gweithredu ar ran Cronfa Bensiwn Dyfed, yn darparu gwasanaeth i'r Awdurdod drwy reoli'r taliadau a wneir i Ddiffoddwyr Tân sy'n bensiynwyr, a hynny ar ran yr Awdurdod. Maent hefyd yn gyfrifol am reoli cofnodion y pensiynwyr presennol ac aelodau gweithredol o'r cynllun.

Effeithiwyd ar rai aelodau o gynllun pensiwn y diffoddwyr tân 1992 gan Orchymyn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol) 2016 a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2016. Bu gofyniad i wneud ad-daliadau, sef £106k, i nifer o Aelodau yr oedd y newid yn y rheoliad yn effeithio arnynt. Cafodd y taliadau eu gwneud drwy Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân a chafodd y costau ychwanegol eu had-dalu gan Lywodraeth Cymru.

Yn 2016-17, £4.06 miliwn oedd amcangyfrif y Grant Atodol a oedd yn ddyledus, a £4.68 miliwn oedd y swm gwirioneddol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £1.4 miliwn yn ddyledus i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r polisïau cyfrifyddu ar gyfer Cyfrif y Gronfa Bensiwn yn gyson â'r polisïau cyfrifyddu sydd yn Atodiad 1.

**Cyfraddau Cyfraniadau**

Dan Reoliadau Pensiwn Diffoddwyr Tân, 14.3% o'r cyflog pensiynadwy oedd cyfraddau cyfraniad cyflogwyr ar gyfer cynllun 2015, gyda chyfraddau'r gweithwyr fel y bandiau cyflog pensiynadwy a nodir isod:

| Band Cyflog Pensiynadwy | % Cyfradd Cyfraniad 2016-17 |
|---|---|
| Hyd at a chan gynnwys £27,270 | 10.0 |
| Mwy na £27,271 a hyd at a chan gynnwys £50,500 | 12.5 |
| Mwy na £50,501 a hyd at a chan gynnwys £142,500 | 13.5 |
| Mwy na £142,501 | 14.5 |

Dan Reoliadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, cyfraddau'r cyfraniadau cyflogwr ar gyfer cynllun 2007 oedd 16.8% o gyflog pensiynadwy gyda chyfraddau'r gweithwyr fel y bandiau cyflog pensiynadwy isod:

| Band Cyflog Pensiynadwy | % Cyfradd Cyfraniad 2016-17 |
|---|---|
| Hyd at a chan gynnwys £15,301 | 8.5 |
| Mwy na £15,301 a hyd at a chan gynnwys £21,422 | 9.4 |
| Mwy na £21,422 a hyd at a chan gynnwys £30,603 | 10.4 |
| Mwy na £30,603 a hyd at a chan gynnwys £40,804 | 10.9 |
| Mwy na £40,804 a hyd at a chan gynnwys £51,005 | 11.2 |
| Mwy na £51,005 a hyd at a chan gynnwys £61,206 | 11.3 |
| Mwy na £61,206 a hyd at a chan gynnwys £102,010 | 11.7 |
| Mwy na £102,010 a hyd at a chan gynnwys £122,412 | 12.1 |
| Mwy na £122,412 | 12.5 |

Ar gyfer cynllun 1992, roedd cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn 25.5% o'r cyflog pensiynadwy gyda chyfraddau'r gweithwyr fel y bandiau cyflog pensiynadwy isod:

| Band Cyflog Pensiynadwy | % Cyfradd Cyfraniad 2016-17 |
|---|---|
| Hyd at a chan gynnwys £15,301 | 11.0 |
| Mwy na £15,301 a hyd at a chan gynnwys £21,422 | 12.2 |
| Mwy na £21,422 a hyd at a chan gynnwys £30,603 | 14.2 |
| Mwy na £30,603 a hyd at a chan gynnwys £40,804 | 14.7 |
| Mwy na £40,804 a hyd at a chan gynnwys £51,005 | 15.2 |
| Mwy na £51,005 a hyd at a chan gynnwys £61,206 | 15.5 |
| Mwy na £61,206 a hyd at a chan gynnwys £102,010 | 16.0 |
| Mwy na £102,010 a hyd at a chan gynnwys £122,412 | 16.5 |
| Mwy na £122,412 | 17.0 |

**Nid yw Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cymryd ystyriaeth o'r ymrwymiadau am bensiynau a buddion eraill wedi diwedd y cyfnod, gan mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hyn. Mae manylion am yr ymrwymiadau pensiwn tymor hir i'w cael yn Nodyn 33 o'r datganiadau ariannol craidd**
**(2017 - £289.45 miliwn, 2016 - £239.19 miliwn).**

**Atodiad 1**

# DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

## 1. CYFFREDINOL

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod am flwyddyn ariannol 2016-17, a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2017. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad blynyddol o Gyfrifon dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, ac mae'r Rheoliadau hynny yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi gydag arferion cyfrifyddu priodol. Yn bennaf, mae'r arferion hyn yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 (y Cod), a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a'r cyfarwyddyd statudol a gyhoeddwyd dan Adran 12 o Ddeddf 2003.

Y prif newid i'r polisïau cyfrifyddu yng Nghod Ymarfer 2016-17 yw newid yn y ffordd y mae'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant (CIES) yn cael ei adrodd. Yn y blynyddoedd blaenorol adroddwyd hyn yn unol â Chod Ymarfer Adrodd Gwasanaethau CIPFA, ond o 2016-17 ymlaen mae'r CIES yn cael ei adrodd ar sail gwasanaeth felly dim ond un llinell sydd ar gyfer cost gwasanaethau. Hefyd, mae datganiad newydd ar gyfer 2016-17, sef y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid sy'n cysoni'r cyfrifon rheolaeth â'r CIES.

Yr arfer cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, a hwnnw wedi ei addasu trwy ailwerthuso rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

Mae'r gymhareb rhwng Ymrwymiadau Cyfredol ac Asedau Cyfredol yn uchel, a byddai hyn yn dangos bod gan yr Awdurdod broblem gyda hylifedd efallai o ran bod heb ddigon o adnoddau ar gael i ddiwallu ei rwymedigaethau tymor byr. Fodd bynnag, mae modd i'r Awdurdod gael gafael yn rhwydd ar fenthyciadau gan Fwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a ffynonellau eraill, ac nid oes risg sylweddol os bydd yn methu cael cyllid i gwrdd â'i rwymedigaethau.

## 2. INCWM A GWARIANT

Yn y cyfrifon refeniw, rhoddir cyfrif am yr incwm a'r gwariant, yn net o TAW, yn bennaf yn y flwyddyn pryd maent yn digwydd, nid pan wneir neu pan dderbynnir y taliadau arian parod. Yn arbennig:

- Rhoddir cyfrif am y ffioedd, costau a rhenti sy'n ddyledus gan gwsmeriaid fel incwm ar y dyddiad pryd mae'r Awdurdod yn darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol.

- Cofnodir y cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwlch rhwng y dyddiad yn cael eu derbyn a phryd y cânt eu defnyddio, nodir hwy fel stoc ar y Fantolen.

- Nodir gwaith fel gwariant pan fydd wedi ei gwblhau, a chyn hynny caiff ei nodi ar y Fantolen fel gwaith yn mynd rhagddo.

- Rhoddir cyfrif am y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ar sail y gyfradd llog sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian sy'n cael ei osod neu ei benderfynu gan y contract.

- Pan fo incwm a gwariant wedi cael eu cydnabod, ond nad oes arian wedi ei dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr y swm perthnasol ar y Fantolen. Pan fo amheuaeth a fydd dyledion yn cael eu setlo, ysgrifennir balans y dyledwyr a nodir cost ar y refeniw am yr incwm na fydd modd ei chasglu efallai.

- Pan fo taliadau'n ymwneud â gwasanaethau sy'n pontio mwy nag un flwyddyn ariannol, gall taliad gael ei gydnabod yn y flwyddyn pryd y cafodd y taliad ei wneud.

## 3. ARIAN A CHYFWERTH AG ARIAN

Arian yw arian mewn llaw ac adnau gyda sefydliadau ariannol sy'n daladwy heb gost ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Cyfwerth ag arian yw buddsoddiadau sy'n aeddfedu ymhen tri mis neu lai o ddyddiad caffael, ac maent i'w troi'n symiau hysbys o arian gyda risg ansylweddol o newid gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir yr arian a'r cyfwerth ag arian yn net o orddrafftiau banc sy'n daladwy ar gais ac sy'n rhan annatod o reolaeth ariannol yr Awdurdod.

## 4. COSTAU AR Y REFENIW AM ASEDAU ANGHYFREDOL

Darperir dibrisiad ar gyfer cerbydau ar sail llinell syth, gyda chaffaeliadau'n cael eu dibrisio yn y flwyddyn ar ôl eu prynu.

Mae adeiladau wedi eu dibrisio ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol amcangyfrifiedig yr asedau, fel y cyflenwyd gan Wilks Head and Eve, y Syrfëwyr Siartredig. Defnyddir y Dull Beacon pan fo amcangyfrif yn cael ei wneud o gydrannau'r adeilad ac oes ddefnyddiol pob cydran. Yna, defnyddir y dull cyfartaledd wedi'i bwysoli i bennu canran dibrisiad llinell syth. I Orsafoedd Tân, 2.45% yw'r ganran a ddefnyddir a 2.21% i Adeiladau Swyddfa.

Caiff dibrisiad ei godi ar adrannau'r gwasanaeth o fewn y cyfrif incwm a gwariant. Caiff y swm hwn ei gredydu ar Falans y Gronfa Gyffredinol, felly mae'n cael effaith niwtral ar y cyfraniadau a wneir gan yr awdurdodau cyfansoddol.

Caiff asedau eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth dros y cyfnodau canlynol neu gan ddefnyddio canran o'r gwerthoedd agoriadol:-

| | |
|---|---|
| Adeiladau | 2.21% i 2.45% |
| Seilwaith | 10-20 mlynedd |
| Cerbydau, Peiriannau ac Offer | 3-20 mlynedd |
| Asedau Anniriaethol | 5-15 mlynedd |

Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod godi ardoll i ariannu dibrisiad, ailbrisiad a cholledion amhariadau neu amorteiddiad. Fodd bynnag, y mae'n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o'r refeniw at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r cyfraniad o Fantolenni'r Gronfa Gyffredinol (MRP) yn cymryd lle'r dibrisiad, ailbrisiad a cholledion amhariadau ac amorteiddiad drwy drosglwyddiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Symudiad mewn Cronfeydd am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

## 5. BUDDION GWEITHWYR

### Buddion yn daladwy yn ystod cyflogaeth

Bydd cyflogau a thaliadau'n gysylltiedig â chyflogaeth yn cael eu cydnabod yn y cyfnod pryd y derbynnir y gwasanaeth gan y gweithwyr. Mae cost hawliad seibiant blynyddol a enillwyd ond na chymerwyd gan y gweithwyr ar ddiwedd y cyfnod yn cael ei chydnabod yn y datganiadau ariannol i'r graddau y mae gan y gweithwyr hawl i gario seibiant drosodd i'r cyfnod canlynol.

### Buddion terfynu

Buddion terfynu yw symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad a wneir gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol, a chânt eu talu ar sail croniadau i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant ar yr adeg cynharaf o blith yr adeg pryd na all yr awdurdod mwyach dynnu'r cynnig am y buddion hynny neu pryd mae'r awdurdod yn cydnabod costau ar gyfer ailstrwythuro.

## 6. BUDDION ÔL-GYFLOGAETH

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn gwahanol, sy'n diwallu anghenion grwpiau gwahanol o weithwyr. Dyma'r cynlluniau:

**Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (CPDT)**

Mae cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn gynllun gyda buddion, nad yw'n cael ei ariannu, ac ystyr hynny yw nad oes unrhyw asedau buddsoddi wedi eu casglu i gwrdd â'r ymrwymiadau o ran pensiynau a rhaid creu arian i gwrdd â'r taliadau pensiwn eu hunain pan maent yn ddyledus. Mae cyfraniadau'r gweithiwr a'r cyflogwr yn seiliedig ar gyfran o'r cyflog pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn destun ailwerthusiad bob tair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Caiff y gronfa bensiwn ei thrin fel datganiad incwm a gwariant ar wahân yn y Datganiad o Gyfrifon, ac mae'n cael ei neilltuo er mwyn sicrhau eglurder, gweler Nodyn 21, 34 a 'Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân' ar dudalen 45 i gael rhagor o fanylion. Trwy'r gronfa bensiwn y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldeb o ran talu pensiynau swyddogion sydd wedi ymddeol, y rhai sy'n eu goroesi ac eraill sy'n gymwys am fuddion dan y cynllun.

Caiff ymrwymiad tymor hir amcangyfrifiedig yr Awdurdod Tân ac Achub i dalu'r costau eu hun eu datgelu gan Nodyn i'r cyfrifon fel sy'n ofynnol gan IAS 19.

**Staff yr Ochr Gefnogol a'r Ystafell Reoli**

Dyma gynllun a ariennir, gyda'r pensiwn yn cael ei dalu o'r cronfeydd buddsoddi gwaelodol a reolir gan gronfa bensiwn Cyngor Sir y Fflint (y 'gronfa') sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL). Actiwarïaid sy'n pennu cyfradd cyfraniad y cyflogwr. Mae rhagor o gostau'n codi mewn perthynas â rhai pensiynau a delir i weithwyr sy'n ymddeol ar sail heb ei ariannu. Gweler Nodyn 34 am ragor o fanylion.

## 7. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yw'r digwyddiadau hynny, boed ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pryd y mae'r datganiadau ariannol wedi eu hawdurdodi i gael eu cyhoeddi. Gellir nodir dau fath o ddigwyddiad.

a) y rheini sy'n darparu tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd (digwyddiadau sy'n addasu ar ôl y cyfnod adrodd), a
b) y rheini sy'n dangos amodau a ddigwyddodd ar ôl y cyfnod adrodd (digwyddiadau nad ydynt yn addasu ar ôl y cyfnod adrodd).

## 8. EITEMAU EITHRIADOL

Pan fo eitemau incwm a gwariant yn bwysig, datgelir eu natur a'u swm ar wahân, naill yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, gan ddibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau er mwyn deall perfformiad ariannol yr Awdurdod.

## 9. ADDASIADAU I'R CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU

Gall addasiadau i'r cyfnod blaenorol ddigwydd o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwall pwysig. Rhoddir cyfrif yn rhagolygol am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod pryd y bydd y newid yn effeithio arnynt ac nad ydynt yn arwain at addasiad cyn y cyfnod.

Ni chaiff newidiadau i bolisïau eu gwneud ond pan fo hynny'n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol neu bod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynglŷn ag effeithiau trafodion, digwyddiadau ac amodau eraill ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan gaiff newid ei wneud, caiff ei wneud am yn ôl (oni bai y nodir fel arall) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi cael ei ddilyn erioed.

## 10. OFFERYNNAU ARIANNOL

Y diffiniad o Offeryn Ariannol yw 'unrhyw gytundeb sy'n achosi ased ariannol un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti un arall'. Bydd ymrwymiadau ariannol (benthyciadau) ac asedau ariannol (buddsoddiadau) yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg, ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Bydd y llog blynyddol a delir ac a dderbynnir yn y cyfrif Incwm a Gwariant yn seiliedig ar swm cludo'r benthyciad neu'r buddsoddiad wedi ei luosogi gan gyfradd effeithiol y llog ar gyfer yr offeryn. O ran pob benthyciad a buddsoddiad sydd gan yr Awdurdod, y symiau sydd yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n aros, ynghyd ag unrhyw log cronedig am y flwyddyn.

## 11. BUDDSODDIADAU

Dangosir y buddsoddiadau yn y Fantolen ar eu cost i'r Awdurdod, a chânt eu heitemeiddio mewn Nodyn ar wahân.

## 12. TROSI ARIAN TRAMOR

Mae'r rhan fwyaf o drafodion yr Awdurdod mewn punnoedd sterling. Pan fo'r Awdurdod wedi cael trafodion mewn arian tramor, caiff yr arian ei drosi i bunnoedd sterling ar y gyfradd gyfnewid pryd y gwnaed y trafodion. Pan fo'r cyfarpar wedi cael ei brynu o dramor, bu'n rhaid talu am y nwyddau yn arian y wlad lle digwyddodd y trafodyn.

## 13. RHOI CYFRIF AM GRANTIAU'R LLYWODRAETH

Ni ellir rhoi grantiau'r Llywodraeth yn erbyn asedau sefydlog, ond bydd grantiau'r llywodraeth (a chyfraniadau eraill) yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant pan fo'r amodau gofynnol wedi cael eu bodloni. Yna, trosglwyddir yr incwm i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf neu'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio, yn ddibynnol ar p'un ai bydd wedi ei ddefnyddio ai peidio. Yn ei hanfod, defnyddir Grantiau'r Llywodraeth a ddyfernir ar gyfer cynlluniau cyfalaf fel ffynhonnell arian ar gyfer y rhaglen gyfalaf.

## 14. RHESTRAU STOC

Mae rhestrau stoc wedi cael eu prisio gan ddefnyddio FIFO (*First In First Out*) neu fformiwlâu cost ar gyfartaledd wedi eu pwysoli. Pan fo telerau taliadau gohiriedig ar gyfer prynu rhestrau stoc, ystyrir hyn yn drefniant ariannu, ac mae'r gwahaniaeth rhwng y pris a fyddai wedi cael ei dalu o dan delerau credyd "arferol" a'r swm a dalwyd mewn gwirionedd wedi cael ei gydnabod fel gwariant llog dros y cyfnod ariannu.

## 15. LESOEDD

**Lesoedd cyllid**

Pan mai'r Awdurdod sy'n cynnal pob risg a gwobr bod yn berchen ar ased ar les, caiff yr ased ei chofnodi fel Eiddo, Peiriannau ac Offer a chofnodir ymrwymiad cyfatebol. Y gwerth a gydnabyddir ar gyfer y ddau yw'r isaf o werth teg yr ased neu werth presennol isafswm y taliadau les, wedi ei ddisgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n ymhlyg yn y les. Y gyfradd llog sy'n ymhlyg yw'r hyn sy'n cynhyrchu cyfradd llog rheolaidd a chyson ar yr ymrwymiad sy'n weddill. Caiff yr ased a'r ymrwymiad eu cydnabod ar gychwyn y les, a chânt eu dad-gydnabod pan gaiff yr ymrwymiad ei ryddhau, ei ganslo neu pan ddaw i ben. Caiff y rhent blynyddol ei rannu rhwng ad-dalu'r ymrwymiad a'r cost cyllido. Caiff y gost cyllido flynyddol ei chyfrifo trwy roi'r gyfradd llog sy'n ymhlyg at yr ymrwymiad sy'n weddill, a chaiff ei chodi ar y Costau Ariannu yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm.

**Lesoedd Gweithredu**

Pan fo asedau ar gael i'w defnyddio dan drefniadau les, caiff y rhenti sy'n daladwy eu codi ar gyfrif y gwasanaeth priodol ar sail llinell syth, ni waeth beth fo'r trefniadau talu. Gan nad yw'r Awdurdod yn berchen ar yr asedau hyn, nid yw'r costau'n ymddangos yn y Fantolen. Felly hefyd, caiff yr ymrwymiad i dalu costau rhentu yn y dyfodol eu heithrio, ond atodir Nodyn ar wahân i'r Fantolen.

## 16. DYRANNU COSTAU GWEINYDDOL CANOLOG

Mae'r gwasanaethau gweinyddol canolog mawr, megis Cyllid, Rheoli Eiddo a'r Gefnogaeth Gyfreithiol a Gweinyddol yn cael eu prynu gan Awdurdodau Lleol eraill. Mae'r costau hyn, a chostau gweinyddiaeth ganolog yn yr Awdurdod Tân, wedi cael eu dyrannu i wasanaethau rheng-flaen yn unol â Datganiad CIPFA ar Gyfrifyddu Gorbenion a Chod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau, ac eithrio:

- Craidd Corfforaethol a Democrataidd – costau sy'n ymwneud â statws yr Awdurdod fel sefydliad amlswyddogaethol a democrataidd.
- Costau heb eu dosrannu – cost y buddion yn ôl disgresiwn a roddir i weithwyr sy'n ymddeol a cholledion amhariadau i'w codi ar Asedion a Ddelir ar Werth.

## 17. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Cydnabod

Caiff Eiddo, Peiriannau ac Offer eu cyfalafu pan:

- mae'n cael ei gadw i'w ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau neu i ddibenion gweinyddol;
- mae'n debygol y bydd buddion economaidd yn y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod, neu y bydd gwasanaeth yn debygol o gael ei ddarparu iddo;
- mae disgwyl iddo gael ei ddefnyddio am fwy nag un flwyddyn ariannol;
- gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy;
- mae'r eitemau'n rhan o gost gychwynnol cyfarparu neu sefydlu adeilad newydd neu wrth adnewyddu gorsaf neu swyddfeydd, ni waeth beth fo'u cost unigol neu ar y cyd. Pan fo ased mawr, er enghraifft adeilad, yn cynnwys nifer o gydrannau gyda gwahaniaeth mawr yn oes yr ased, e.e. peiriannau ac offer, yna caiff y cydrannau hyn eu trin fel asedau ar wahân, a'u dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol eu hunain.

£1000 yw'r lefel *de Minimus* ar gyfer cyfalafu asedau.

Oes Economaidd Ddefnyddiol Asedau

Caiff yr asedau eu dal gan y gwasanaeth am eu hoes economaidd ddefnyddiol am y cyfnodau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau | 20-75 blynedd |
| Seilwaith | 10-20 blynedd |
| Cerbydau, Peiriannau ac Offer | 3-20 blynedd |
| Asedau Anniriaethol | 5-15 blynedd |

Asedau Anarbenigol yr Ochr Weithredol ac Anweithredol

Mae tir ac adeiladau anarbenigol yr ochr weithredol ac anweithredol yn cael eu cario drosodd ar Werth Teg, sy'n cael ei bennu fel arfer yn ôl tystiolaeth y farchnad, sef yn gyffredinol y gwerth ar y farchnad agored, ond mae'r Cod yn caniatáu i'r rhain gael eu cario drosodd ar y gwerth defnydd presennol.

Asedau o Natur Arbenigol

O ran asedau o natur arbenigol lle nad oes unrhyw dystiolaeth ar y farchnad, mae amcangyfrif o werth teg wedi cael ei seilio ar Gost Amnewid Dibrisiedig (*Depreciated Replacement Cost (DRC*)), gyda'r prisiad yn Ased Cyfwerth Modern (*Modern Equivalent Asset (MEA*)) gan ddefnyddio'r dull "adeiladu ar unwaith". Mae gorsafoedd tân yn cael eu cynnwys yn y categori hwn.

Tir ac Adeiladau

Rhoddwyd cyfrif am dir ac adeiladau ar wahân, a thybir bod oes ddiddiwedd gan dir. Caiff eiddo ei ailbrisio bob 5 mlynedd, a chynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 1 Ebrill 2015.

Asedau sy'n cael eu Hadeiladu

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu wedi cael eu prisio ar gost hanesyddol.

Asedau dros ben

Mae asedau dros ben wedi cael eu prisio ar Werth Teg, sef yr hyn a ystyrir yn werth ar y farchnad agored. Pan nad yw'r ased yn cael ei ddal er mwyn creu llif arian, y gwerth a ddefnyddir yw gwerth presennol potensial gwasanaeth yr ased sy'n weddill, a thybir bod hynny yn gyfwerth o leiaf â chost amnewid y potensial gwasanaeth hwnnw a'i ddefnyddio fel mesur o werth teg.

Os yw'r ased dros ben o natur arbenigol, yna bydd y gost amnewid dibrisiedig wedi cael ei ddefnyddio fel amcangyfrif o werth teg. Mae asedau dros ben wedi eu dibrisio, gyda'r dibrisiad wedi ei ddangos yn erbyn "costau na ddosrannwyd" yn hytrach na gwasanaeth penodol.

Cyfrifyddu Cydadrannol

Cydran o eiddo, peiriant ac offer yw eitem sydd â chost yn sylweddol mewn perthynas â chyfanswm cost yr ased. Mae cydrannau'n cael eu dibrisio'n unigol dros eu hoes defnyddiol, ac mae adeiladau'n cael eu dibrisio ar sail cydran. Ni fydd cyfrifyddu cydrannol ond yn cael ei ddefnyddio pan fo cydran yn dod yn lle cydran neu gydran yn cael ei wella'n rhannol a'r hen gydran wedi cael ei ddad-gydnabod.

Ailbrisio

Pan fo ased yn cael ei ailbrisio, gwneir Nodyn rhwng y Gronfa Ailbrisio a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiad yn seiliedig ar gost hanesyddol a swm yr ailbrisiad.

Colledion Ailbrisio

Bydd colled ailbrisio o ganlyniad i dreulio budd economaidd, os bydd gwraged ailbrisio ar yr ased hwnnw, yn cael ei godi i ddechrau yn erbyn y gwarged i faint y gwarged hwnnw, gyda balans y golled yn cael ei godi ar y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

Cafodd y prisiad llawn diwethaf o'r eiddo ei gynnal ar 1 Ebrill 2015 gan Wilks Head and Eve, sef cwmni prisio o Lundain. Mae'r lle swyddfeydd wedi eu prisio ar werth eu defnydd presennol, ac mae'r gorsafoedd tân ar gost amnewid dibrisiedig. Er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer, fe wnaeth y prisiwr amcangyfrif yr oes sydd ar ôl i holl adeiladau'r Awdurdod. Mae dibrisiad yn seiliedig ar y Dull Beacon pan fo amcangyfrif yn cael ei wneud o gydrannau'r adeilad ac oes ddefnyddiol pob cydran. Yna, defnyddir y dull cyfartaledd wedi'i bwysoli i bennu canran dibrisiad llinell syth. I Orsafoedd Tân, 2.45% yw'r ganran a ddefnyddir a 2.21% i Adeiladau Swyddfa. Mae asedau eraill yn cael eu cydnabod ar sail cost hanesyddol, sef procsi ar gyfer y gost gyfredol ar asedau oes fer ac wedi'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

Amhariad

Mae'r asedau'n cael eu cario heb fod dim uwch na'u swm adferadwy, a mesurir yr amhariad trwy gymharu'r gwerth sy'n cael ei gario gyda'r uchaf o'r gwerth teg, llai y costau i werthu (cyfwerth â'r pris gwerthu net) a'r gwerth o'u defnyddio. Bydd yr amhariad yn cael eu fesur bob blwyddyn, ac mae'r dangosyddion i wrth-droi'r amhariad yr un fath ar gyfer asedau diriaethol ac asedau anniriaethol. Bydd yr holl golledion amhariad ar asedau wedi eu hailbrisio yn cael eu cydnabod yn y Gronfa Ailbrisio hyd at y swm yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer pob ased unigol.

## 18. DERBYNIADAU CYFALAF

Bydd derbyniadau asedau y cafwyd gwared arnynt yn cael eu dal fel Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy yn y gronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd oni fyddant yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf. Mae pob derbyniad o werthu asedau dros £10k yn cael eu trin fel derbyniadau cyfalaf. Yr eithriad i'r rheol yw pan fo derbyniad yn ymwneud â cherbydau penodol lle mae'r enillion wedi cael eu ffactorio i mewn i'r amserlen ad-dalu, gallai'r symiau hyn fod yn llai na £10k.

## 19. CRONFEYDD DROS BEN A DARPARIAETHAU

Gwneir darpariaethau pan fo rhywbeth wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth ar yr awdurdod sy'n debygol o ofyn am setliad trwy drosglwyddo buddion economaidd, ond lle bo amseriad y trosglwyddiad yn ansicr.

Codir tâl am y darpariaethau ar gyfrif refeniw'r gwasanaeth priodol yn y flwyddyn y mae'r awdurdod yn dod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, yn seiliedig ar yr amcangyfrif gorau o'r setliad tebygol. Pan wneir y taliadau, cânt eu codi ar y ddarpariaeth a sefydlir yn y Fantolen. Bydd setliadau amcangyfrifiedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol – phan fo hi'n fwy tebyg na pheidio na fydd angen trosglwyddo buddion economaidd mwyach (neu y gwneir setliad is na'r disgwyl), bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwrth-droi a'i chredydu'n ôl i gyfrif refeniw priodol y gwasanaeth.

Mae'r Awdurdod yn cadw cronfeydd i ymorol am wariant yn y dyfodol. Cânt eu datgelu o fewn y fantolen, ac esbonnir eu diben yn nodiadau'r fantolen.

## 20. YMRWYMIADAU AMODOL

Bydd ymrwymiad amodol yn digwydd pan fo digwyddiad wedi bod sy'n gwneud ymrwymiad posib ar yr Awdurdod na chaiff ei gadarnhau ond trwy fodolaeth, neu fel arall, rywbeth nad yw'n llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Bydd ymrwymiadau amodol eraill yn digwydd mewn amgylchiadau pan fyddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu na ellir mesur swm yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Ni fydd ymrwymiadau amodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond yn cael eu datgelu mewn Nodyn i'r cyfrifon.

## 21. TRETH AR WERTH

Mae TAW yn cael ei gynnwys yn y cyfrifon incwm a gwariant, boed o natur gyfalaf neu refeniw, dim ond i'r graddau y mae'n anadferadwy.

## 22. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Mae asedau anniriaethol a grëir yn fewnol yn cael eu cyfalafu lle bo'r meini prawf ar gyfer cydnabod yn cael eu hateb. Dyma'r meini prawf: rhaid iddi fod yn bosib gwahanu'r ased oddi wrth yr endid, rhaid i'r endid reoli'r ased, rhaid bod budd economaidd yn y dyfodol i'r ased, rhaid iddi fod yn debygol y bydd y manteision economaidd yn llifo i'r endid, ac y gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy. I ddechrau, bydd yr ased anniriaethol yn cael ei fesur ar gost, bydd pob ailbrisiad yn cael eu codi i ddechrau ar y gronfa ailbrisio, ac nid oes uchafswm ar oes ddefnyddiol yr ased.

## 23. SAFONAU CYFRIFYDDU A GYHOEDDWYD OND NA FABWYSIADWYD ETO

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r effaith a ddisgwylir gan newid i gyfrifyddu a fydd yn ofynnol yn ôl safon newydd a gyhoeddwyd ond na fabwysiadwyd eto. Mae hyn yn berthnasol i fabwysiadu'r safonau newydd neu ddiwygiedig a ganlyn o fewn Cod 2017/18. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'w rhoi ar waith o 1 Ebrill 2017 ymlaen ac felly nid oes effaith ar Ddatganiad o Gyfrifon 2015/16.

- IFRS 15 Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid 01/01/2018
- IFRS 16 Lesoedd 01/01/2019
- IFRS 9 Offerynnau Ariannol 01/01/2018
- IAS 7 Datganiad Llifoedd Arian 01/01/2017
- IAS 40 Eiddo Buddsoddi 01/01/2018
- Gwelliannau Blynyddol i'r IFRS
- IFRS 7 Datgeliadau Offerynnau Ariannol 01/01/2016
- IFRS 12 Datgelu Buddiant mewn Endidau Eraill 01/01/2017

Efallai y bydd angen mabwysiadu rhai newidiadau yn ôl-weithredol gan olygu, o'u mabwysiadu, y gallai gwybodaeth 2016-17 sydd yn y cyfrifon hyn gael eu hailddatgan yng nghyfrifon 2017-18 i adlewyrchu'r gofynion adrodd newydd. Mae'r nodyn hwn yn nodi'r effaith a fyddai wedi cael ei gweld petai'r safonau newydd eisoes mewn grym.

Mae Safon IFRS 15 yn cyflwyno model pum cam wrth ystyried ac adrodd ynghylch contractau â chwsmeriaid. Mae'r safon hon yn darparu arweiniad ynglŷn â phryd dylid cydnabod refeniw a nodi ymrwymiadau perfformiad, addasiadau contractau ac adlewyrchu gwerth am arian amser.

Bydd Safon IFRS 16 yn dod â'r rhan fwyaf o'r lesoedd ar y fantolen, gan gynnwys lesoedd gweithredu gan ddileu'r gwahaniaeth rhwng lesoedd cyllid a lesoedd gweithredu. Mae Safon IFRS 16 yn disodli IAS 17, caniateir mabwysiadu'n gynnar os dilynir Safon IFRS 15 hefyd. Mae hyn yn berthnasol pan mai'r awdurdod yw'r lesddeiliad.

Mae Safon IFRS 9 yn cyflwyno un dosbarthiad sengl ar gyfer asedau ariannol gyda nodweddion llif arian a sut caiff offerynnau eu rheoli. Model colledion disgwyliedig sy'n edrych ymlaen ar gyfer amhariadau yn hytrach na'r dull colledion a gafwyd dan yr IAS 39 cyfredol.

Bydd diwygiadau IAS 7 Datganiad o Lifoedd Arian yn darparu datgeliadau i alluogi defnyddwyr datganiadau ariannol i werthuso newidiadau mewn ymrwymiadau sy'n deillio o weithgareddau ariannol.

Mae IAS 40 wedi cael ei ddiwygio i nodi y bydd endid yn trosglwyddo eiddo i eiddo buddsoddi, neu o eiddo buddsoddi, pan (a dim ond y pryd hwnnw) mae tystiolaeth o newid defnydd. Mae newid defnydd yn digwydd dim ond pan fo eiddo'n bodloni'r diffiniad o eiddo buddsoddi.

Mae'r gwahanol newidiadau sydd dan y Gwelliannau Blynyddol i gylchoedd Safonau IFRS yn ddiweddariadau cymharol fach i egluro'r driniaeth gywir. Ni fydd yr un ohonynt yn cael effaith sylweddol ar y Datganiad o Gyfrifon.

**Atodiad 2**

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/17

Cafodd y Datganiad hwn ei lunio yn unol â chanllawiau a gynhyrchwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), sef y fframwaith ‘Delivering Good Governance in Local Governance’. Mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn esbonio sut mae’r Awdurdod wedi cydymffurfio gyda’r fframwaith newydd a’i saith egwyddor craidd o lywodraethu da i sicrhau bod adnoddau’n cael eu cyfeirio yn unol â pholisi a gytunwyd a blaenoriaethau a gytunwyd.

### 1 Cwmpas Cyfrifoldeb

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â’r gyfraith ac i’r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif cywir amdano, a’i fod yn cael ei ddefnyddio’n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Hefyd, mae dyletswydd ar yr Awdurdod o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y mae ei swyddogaethau’n cael eu cyflawni, gan dalu sylw i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni’r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae’r Awdurdod yn gyfrifol am roi trefniadau cywir yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei faterion er mwyn ei gwneud yn haws i gyflawni ei swyddogaethau’n effeithiol, ac sy’n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae’r datganiad hwn yn esbonio sut y mae’r Awdurdod wedi cydymffurfio â’r cod, a hefyd wedi ateb gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2011, mewn perthynas â chyhoeddi datganiad mewn rheolaeth fewnol.

### 2 Diben y Fframwaith Llywodraethu

Mae’r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a’r prosesau, y diwylliant a’r gwerthoedd sy’n cyfarwyddo a rheoli’r Awdurdod, a’r gweithgareddau ar gyfer bod yn atebol i’r gymuned, trafod â hi, a’i harwain. Mae’n galluogi’r Awdurdod i fonitro’r modd y mae’n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried p’un a yw’r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol a gwelliannau parhaus.

Mae’r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o’r fframwaith hwnnw, a’i nod yw rheoli risg i fod ar lefel resymol. Ni all gael gwared ar bob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac felly ni all ond darparu sicrwydd rhesymol, heb fod yn absoliwt, o effeithiolrwydd. Mae’r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd â’r nod o adnabod a blaenoriaethu’r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gwasanaeth, gwerthuso’r tebygolrwydd o wireddu’r risgiau hynny a’r effaith petaent yn cael eu gwireddu, a’u rheoli’n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Rhoddwyd y fframwaith llywodraethu yn ei le ar gyfer yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 a hyd at ddyddiad cymeradwyo’r datganiad o gyfrifon.

**3 Y Fframwaith Llywodraethu**

Mae'r datganiad hwn yn disgrifio prif elfennau Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod a'n hunanasesiad o gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod. Mae'r sicrwydd llywodraethu sydd yn y datganiad hwn wedi ei strwythuro o gwmpas pob un o'r egwyddorion llywodraethu sydd yn y *International Framework: Good Governance in the Public Sector* (CIPFA/IOFAC, 2014).

Mae pob un o'r egwyddorion hyn yn rhan bwysig o drefniadau Cod Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod. Trwy gymhwyso'r egwyddorion, gallwn ddangos ein bod yn cyflwyno'r gwasanaethau i'n dinasyddion a'n cymunedau mewn ffordd sy'n dangos atebolrwydd, tryloywder, effeithiolrwydd, didwylledd a chynhwysiant.

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA) yn cynnwys Aelodau o'r 6 awdurdod unedol o fewn ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub fel y'i diffinnir gan y Gorchymyn Gwasanaeth Tân (Cynllun Cyfuno) 1995. Mae rôl ac ymddygiad yr ATA wedi eu nodi yn y cyfansoddiad.

Mae côd ymddygiad Aelodau yn cael ei lofnodi'n unigol pan fyddant yn ymuno â'r ATA. Mae côd ymddygiad swyddogion yn cael ei arolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

Mae'r Awdurdod wedi ei drefnu yn bwyllgorau a gweithgorau a benodir yn y cyfarfod blynyddol. Mae gan bob pwyllgor a gweithgor set gynhwysfawr o amodau cyfeirio sydd, ynghyd â manylion eu haelodau, i'w gweld ar y wefan.
http://www.nwales-fireservice.org.uk/fire-and-rescue-authority/?lang=cy-gb

Datgan buddiannau mewn cyfarfodydd – mae'r cofnodion yn cadarnhau y gofynnwyd am ddatgan buddiannau a bod datganiadau priodol wedi eu gwneud.

Mae'r Awurdod Tân ac Achub, yn cynnwys y 28 aelod, yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol, rhyngwyneb gwleidyddol a her gorfforaethol. O fewn y Gwasanaeth mae Grŵp Gweithredol yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth gyfundrefnol, her swyddogaethol a chyflenwi gwasanaeth.

Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol fel sy'n ofynnol dan Adran 112 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac asesir trefniadau rheoli ariannol yr Awdurdod yn erbyn y gofynion llywodraethu a bennir yn Natganiad y Sefydliad Siartredig o Gyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg ar Rôl y Prif Swyddog adrannol mewn Cyfundrefnau Cyhoeddus (2015).
http://www.cipfa.org/policy-and-guidance/reports/the-role-of-the-chief-financial-officer-in-public-service-organisations

Dogfennau Cyfansoddiadol – Mae gan yr Awdurdod gyfres o ddogfennau cyfansoddiadol sydd i'w gweld ar ei wefan. Mae'r rhain yn cynnwys Rheolau Sefydlog Contractau, Cynlluniau Dirprwyo a Rheoliadau Ariannol. Caiff y dogfennau hyn eu harolygu'n rheolaidd gan y Swyddog Monitro a'r Trysorydd ac adroddir ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r Awdurdod i gael eu cymeradwyo.
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/4196/cyfansoddiad-2017.pdf

Er mwyn cael dull ymarferol o reolaeth weithredol ac ariannol trwy'r gyfundrefn, mae swyddogion wedi cael rhai pwerau gan yr Awdurdod ar ffurf Dirprwyaethau Prif Swyddog Tân. Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid cadw rhestr o'r pwerau hyn a gwneir hyn gan y Swyddog Monitro sy'n arolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd ac yn adrodd a chytuno ar unrhyw newidiadau gyda'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r pwerau hyn yn ffurfio rhan annatod o'r trefniadau Llywodraethu ac fe'u harolygwyd ddiwethaf yn 2016.

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol yn delio â'r cyfnod 2017-2020 ac yn ffurfio conglfaen y gwaith o lunio'r gyllideb fanwl bob blwyddyn. Mae'n rhoi cipolwg ar gyllid posibl yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'r Strategaeth yn ystyried:

- Gwybodaeth o'r alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf a chyllideb refeniw eleni fel y sylfaen.
- Barn ar fynegai perthnasol i'w defnyddio gyda'r sylfaen.
- Dull wedi ei gynllunio ar gyfer cronfeydd wrth gefn o ganlyniad i amcanestyniadau'r Strategaeth.
- Barn ar fylchau ariannu posibl a sut i ddelio â'r rhain dros y cyfnod dan sylw..

http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337353/7-strategaeth-ariannol.pdf

Cynllun Gwella a Chynllun Llesiant Cyfun – Mae'r cynllun yn amlinellu'r cyfeiriad y mae'r gyfundrefn yn ei gymryd a sut rydym yn bwriadu delio â'r heriau dros y cyfnod er mwyn parhau i gyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion ein cymunedau. Adroddir yn rheolaidd ar berfformiad y gyfundrefn o gymharu â'r Cynllun Gwella a Llesiant i'r Awdurdod a'r Panel Gweithredol ynghyd ag adroddiad cyffredinol ar y rhain bob blwyddyn i'r Awdurdod ac ar ein gwefan mewn dogfen "Sut wnaethon ni".

Mae **Cynllun Gwella a Llesiant Cyfun** yr Awdurdod yn pennu ei weledigaeth, datganiad cenhadaeth a gwerthoedd. Caiff y cynllun ei lunio yn unol â dyletswyddau penodol yn deillio o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'r Fframwaith Cenedaethol Tân ac Achub ar gyfer Cymru 2008-11. Mae tri pwrpas gwahanol yn y cynllun:

- Darparu gwybodaeth am yr Awdurdod a'r Gwasanaeth, a'r cyd-destun o fewn yr hwn maent yn gweithredu;
- Cofnodi blaenoriaethau uchaf yr Awdurdod ac olrhain ei gynnydd tuag at gyflawni nodau penodol;
- Cofnodi perfformiad hanesyddol dros dair blwyddyn ariannol.

http://www.nwales-fireservice.org.uk/about-us/performance-and-improvement/improvement-planning/?lang=cy-gb

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu **Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol 2014-19: *Rhoi Pobl yn Gyntaf,*** sy'n nodi'r egwyddorion a'r dull i'w ddilyn i sicrhau gwelliannau parhaus yn y gwaith o gyfathrebu gyda'n rhanddeiliaid allweddol. At hyn, mae'r Awdurdod yn rhan o **Femorandwm o Ddealltwraeth Cymru Gyfan: *Ein Cyfeiriad Strategol*** sydd wedi ei gynhyrchu gan Grŵp Cyfathrebu Cymru Gyfan. Ei bwrpas yw cynorthwyo'r tri ATA yng Nghymru i fabwysiadu dull cyffredin a generig o ran ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r cyhoedd.

Fframwaith Cynllunio Strategol – Ein gweledgaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn fwy diogel trwy leihau risg. Rydym yn cydnabod y medrwn ond gael cymunedau diogelach trwy herio a gwella sut rydym yn gweithio trwy gyfrwng gweithlu diogel a galluog a rheoli ein hadnoddau'n effeithiol. Rydym felly wedi pennu cyfeiriad strategol ar gyfer y gyfundrefn trwy ein Cynllun Gwella a Llesiant sy'n delio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ynghyd â gofynion Dogfen Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru 2016 a gynhyrchwyd gan Llywodraeth Cymru. Mae pob adran yn llunio eu cynlluniau eu hunain i gefnogi'r amcanion strategol ac adroddir arnynt bob chwarter.

Mae Polisi Rheoli Risg Strategol yr Awdurdod yn pennu'r broses rydym yn ei defnyddio i adnabod a rheoli bod yn agored i ansicrwydd, a all effeithio cyflawni ein hamcanion neu weithgareddau. Mae Uwch Dîm Rheoli'r gwasanaeth yn adnabod, arolygu a sgorio Risgiau Corfforaethol gan eu hasesu o ran tebygolrwydd ac effaith; yn adnabod unrhyw gamau ydd wedi eu cymryd ac unrhyw gamau pellach sydd angen eu cymryd i leihau'r tebygolrwydd o'r risg yn digwydd, neu liniaru'r risg os bydd yn digwydd. Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol yn cofnodi'r risgiau hyn ac maent yn cael eu monitro'n rheolaidd.
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/4131/12-rheoli-risgiau-strategol.pdf

Mae gan y Pwyllgor Archwilio bedair brif rôl o archwilio a chraffu llywodraethu, archwilio rheolaeth ariannol ac adnoddau, archwilio rheoli risg a sicrhad ac archwilio gwaith craffu a pherfformiad a chraffu.

Mae aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys holl aelodau (panel) anweithredol ac yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Penodir y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd o wahanol awdurdodau er mwyn cynrychioli cymunedau Gogledd Cymru.

Gall y Pwyllgor sefydlu grwpiau gorchwyl amser penodol i ymgymryd ag arolygon ac mae ganddo'r disgresiwn i gyfethol aelodau Gweithredol gydag arbenigrwydd perthnasol ar y grwpiau hyn.

Mae trefniadau penodol ar gyfer Rheolaeth Ariannol effeithiol trw gyfrwng trefniadau cyfrifo, systemau ariannol allweddol a Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau llunio cyllideb ac adrodd yn rheolaidd i Aelodau'r Awdurdod a chymharu gwariant refeniw a chyfalaf gwirioneddol gyda'r cyllidebau blynyddol. Mae trefniadau Rheoli Trsyorlys yr Awdurdod yn dilyn arferion proffesiynol ac yn cael eu harolygu bob blwyddyn gan yr Aelodau.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymuno â Strategaeth Gaffael Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru sy'n gwneud y mwyaf o'r cyfle i gyflenwi effeithlonrwydd a gwelliannau eraill wrth brynu nwyddau, gwasanaethau a dyfarnu contractau ar draws y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

Mae'r Awdurdod wedi cytuno egwyddorion a phrosesau i sicrhau bod ei amcanion, blaenoriaethau a gwerthoedd yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu pan fydd yn gweithio mewn partneriaeth.

Mae cydweithredu a gwaith partneriaeth wedi gwella gyda chyfranogiad yn y pedwar **Bwrdd Sector Cyhoeddus.**

Mae Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd yn Swyddog Monitro dynodedig yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac yn sicrhau cydymffurfio gyda pholisiau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau a sefydlwyd.

Mae Swyddog Monitro'r Awdurdod yn cadw rhestr o Fuddiannau Personol a Busnes yr Aelodau, yn unol â'r Côd Ymddygiad.

Mae'r Awdurdod yn cadw cofrestr flynyddol o roddion a lletygarwch.

Mae gan yr Awdurdod drefniadau gwrth-dwyll a threfniadau chwythu'r chwiban sy'n cael eu harolygu'n rheolaidd gan swyddogion. Mae trefniadau a gytunwyd i gyflawni gofynion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 sydd wedi eu cytuno gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwyliadwraeth ac mae staff allweddol yn ddiweddar wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r rheoliadau hyn.

Trwy ei **Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** a'r **Cynllun Cydraddoldeb Strategol,** mae'r Awdurdod yn ymroddedig i gyflenwi cyfle cyfartal mewn cyflogaeth ar draws y gyfundrefn. Mae'n bolisi i sicrhau bod holl ymgeiswyr a gweithwyr yn cael eu trin yn deg a chyda gofal ac yn hyrwyddo amgylchedd gwaith cytun ar gyfer pob aelod staff, yn rhydd rhag aflonyddiad ac erledigaeth.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol – yn ffurfio rhan o gyfarfodydd cynllunio cyllideb / adrannol rheolaidd
http://www.nwales-fireservice.org.uk/about-us/equality-and-diversity/strategic-equality-plan-2016-2020/

Mae Archwilio Mewnol yn cael ei wneud gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, sy'n gweithio i Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus sy'n berthnasol i holl ddarparwyr Archwilio Mewnol yng Nghymru. Caiff y Cynllun Archwilio Blyyddol ei gytuno gan y Pwyllgor Archwilio sy'n derbyn adroddiadau rheolaidd ar yr archwiliadau a ymgymerwyd, ynghyd ag adroddiad blynyddol cynhwysfawr.

Archwiliwr Cyffredinol Cymru yw archwiliwr statudol yr Awdurdod, gyda'r Archwiliad yn cael ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru. Maent yn darparu her dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llywodraeth Leol 1999 a'r Côd Ymarfer Archwilio. Maent yn cyhoeddi adroddiadau/datganiadau blynyddol ar berfformiad yr Awdurdod, er mwyn:

- archwilio ac ardystio bod datganiadau ariannol yn wir ac yn deg.
- asesu os oes trefniadau priodol i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
- archwilio ac asesu os yw dyletswyddau a gofynion y Mesur wedi eu cyflawni.
- ymgymryd ag astudiaethau i alluogi gwneud argymhellion i wella economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd neu wella trefniadau ariannol neu drefniadau rheoli eraill.

Mae'r Archwiliwr Cyffredinol a Swyddog Archwilio Cymru yn cyflwyno eu cynllun archwilio i'r Aelodau bob blwyddyn ac yn adrodd ar gynnydd a chanlyniadau yn rheolaidd iddynt. Mae'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.

http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337760/6i-cynllun-archwilio-2017.pdf

Mae'r Datganiad Polisi Cyflog Blynyddol yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Telir cyflogau aelodau yn unol ag argymhellion y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Mae ffurflenni trafodion parti cysylltiedig yn cael eu cwblhau yn unol â Chod Ymddygiad ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y DU. Mae'r adroddiadau hyn yn helpu sefydlu trafodion a balansau fel sy'n ofynnol gan y safon gyfrifeg berthnasol (Safon Cyfrifeg Rhyngwladol 24, Datgeliadau Partion Cysylltiedig).

## 4.0 Adolygu Effeithiolrwydd

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Yn sail i'r adolygiad o effeithiolrwydd mae gwaith y Grŵp Gweithredol ac uwch swyddogion eraill o fewn yr Awdurdod, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol yr Archwiliad Mewnol, a hefyd y sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygol eraill ac adolygiadau eraill a gynhelir.

Roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon bod gwaith archwilio mewnol a ymgymerwyd, ynghyd â gwybodaeth Archwilio'r Awdurdod a'i weithdrefnau yn eu galluogi i ddod i gasgliad rhesymol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth risg, prosesau rheoli a llywodraeth ATAGC. Yn eu barn nhw, ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2017, mae gan yr Awdurdod brosesau rheoli mewnol a llywodraethu corfforaethol i gyflawni amcanion yr Awdurdod.

Mae datganiad o sicrwydd wedi ei drafod a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu y mae'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol.

Wrth gynnal ac adolygu pa mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu'r Awdurdod, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:-

*i)* Gwaith pwyllgorau'r Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn derbyn adroddiadau blynyddol gan bob un o'i bwyllgorau a'i weithgorau yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, gan roddi cyfle i'r Aelodau herio a chraffu ar unrhyw faes y maent yn ei dybio sy'n addas;

ii) Monitro perfformiad yn rheolaidd o gymharu â'r **Cynllun Gwella a Llesiant Cyfun** a chynlluniau gwasanaeth, a thargedau allweddol ac adrodd ar hyn i Aelodau'r Awdurdod;

iii) Arolygon rheolaidd o bolisïau gan y swyddog sy'n gyfrifol a chan y Tîm Safonau Gwasanaeth Proffesiynol;

iv) Arolygu rheolaidd o'r dogfennau cyfansoddiadol a threfniadau llywodraethu moesegol gan y Swyddog Monitro a'r Trysorydd;

v) Mae'r Panel Gweithredol yn craffu'n rheolaidd ar wariant refeniw a chyfalaf o gymharu â'r gyllideb a luniwyd ynghyd â gwaith craffu rheolaidd ar berfformiad y Gwasanaeth o gymharu â'r Cynllun Gwella;

vi) Mae uwch swyddogion yn arolygu'r risgiau cyfundrefnol yn rheolaidd ac yn adrodd i'r Aelodau'n rheolaidd;

vii) Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r systemau a'r rheolaethau ariannol, a hynny er mwyn darparu sicrwydd i'r Awdurdod drwy ei Bwyllgor Archwilio;

viii) Y swyddogaeth Archwilio Mewnol, y mae ei gwaith yn cymryd i ystyriaeth risgiau a adnabuwyd trwy archwiladau rheolaidd o'r prif systemau, sefydliadau a phrosiectau mawr yn unol â'r cynllun archwilio mewnol blynyddol, sy'n cynnwys gwaith 'dilynol' i sicrhau bod y Prif Swyddogion yn gweithredu argymhellion a gytunwyd;

ix) Rhaid i Archwilio Mewnol gydymffurfio â safonau archwilio mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Bwriad y safonau hyn, sy'n seiliedig ar elfennau gorfodol Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol (IPPF) y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA), yw hyrwyddo gwelliannau pellach ym mhroffesiynoldeb, ansawdd, cysondeb ac effeithiolrwydd archwilio mewnol ar draws y sector cyhoeddus;

x) Mae'r Safonau wedi eu diwygio o'r 1af Ebrill 2017 i ymgorffori safonau rhyngwladol newydd a diwygiedig a newidiadau dilynol i'r gofynion sector cyhoeddus ychwanegol a dehongliadau. Mae'r Datganiad o Sicrhad Blynyddol gan Archwilio Mewnol yn cadarnhau bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r PSIAS.

xi) Barn ac argymhellion archwilwyr allanol yr Awdurdod ac asiantaethau arolygol ac adolygol eraill;

xii) Cyhoeddodd yr Archwiliwr Cyffredinol farn ddi-amod ar ddatganiadau ariannol 2015/16 yr Awdurdod, gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno safbwynt wir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod a'r Cronfeydd Pensiwn.

xiii) Mewn perthynas â'r archwiliad o ddatganiadau ariannol 2015/16 yr Awdurdod, adroddodd yr Archwiliwr Cyffredinol nifer o argymhellion pwysig i wella prosesau'r Awdurdod. Mewn ymateb, mae'r Awdurdod wedi derbyn yr argymhellion ac wedi dechrau gweithio i gryfhau nifer o weithdrefnau a chofnodion i ddatrys y gwendidau a nodwyd; mae'r gwaith hwn yn parhau.

xiv) Cafwyd camau gweithredu cadarnhaol yn ystod y flwyddyn i delio â'r heriau a amlinellwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2015/16.

### 5.0 Argymhellion ar gyfer Gwella - Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu Blynyddol 16/17

O ran y 'materion rheoli arwyddocaol' sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad ar Reolaeth Fewnol am y flwyddyn ariannol flaenorol (2015/16), dyma'r cynnydd yn 2016/17:

| Mater | Cam Gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Mae bwlch yn y gyllideb, fel y nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig | Defnyddio proses effeithiol ar gyfer rheoli cyllidebau a monitro a sicrhau arbedion a ganfuwyd | Alldro 16/17 yn unol â'r gyllideb a'r rhagolygon. Cynllun gweithredu heb gael ei benderfynu eto gan yr ATA er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod. | Dirprwy Brif Swyddog Tân | Yr Awdurdod Tân ac Achub newydd ar ôl Mehefin 2017 i benderfynu |
| Angen cydweithio gwell rhwng partneriaid yn y Gwasanaethau Brys. | Lleihau'r risg o anaf a marwolaeth oherwydd tân drwy sicrhau cydweithio gwell rhwng partneriaid yn y Gwasanaethau Brys drwy rannu llwyfannau technoleg cyffredin i rannu gwybodaeth (Frequentis LifeX i ddechrau) er mwyn cyfnewid gwybodaeth yn fwy amserol er mwyn rheoli adnoddau'n wella i ddarparu ymateb mwy effeithiol i gymunedau Gogledd Cymru. | Mae GTAGC wedi symud ei Ystafell Reoli i becyn meddalwedd newydd a fydd yn galluogi GTAGC ganolbwyntio ar ddatblygu llwyfan cyfathrebu ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru yn hydref 2017. | Pennaeth yr Ystafell Reoli | Reoli Mawrth 2018 |
| Gofyniad i wella'r gwaith rheoli prosiectau er mwyn gwella'r gwaith o gyflawni amcanion y Gwasanaeth. Gwella Rheolaeth Rhaglenni | WASPI – creu cofrestr ganolog o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth a Chytundebau Datgelu Data. | Defnyddiwyd WASPI fel dull i wella'r broses o rannu data rhwng partneriaid. Hefyd, rhoddwyd system rheoli prosiectau sy'n atebol i'r Grŵp Gweithredol fel y bwrdd rhaglen cyffredinol ar gyfer y rhaglen drawsnewid. | DBST | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – Sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer dyfodiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. | Dehongli'r argymhellion a gwneud argymhellion. | Cwblhawyd hyn yn llwyddiannus, a bu'n sail i'n gwaith ar y byrddau gwasanaethau cyhoeddus. | Rheolwr Cynllunio Corfforaethol | Cwblhawyd |
| Gwella gwybodaeth, ymddygiad yn y sefydliad, o ran Iechyd, Diogelwch a Llesiant. | Datblygu a chyhoeddi dogfennau cyfarwyddyd a chynllun Iechyd a Diogelwch ar y fewnrwyd. | Cafodd hyn ei wneud drwy Grŵp Iechyd, Diogelwch a Llesiant, ac mae nawr yn cael ei ystyried yn fusnes fel arfer. | Uwch Reolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth | Cwblhawyd |

Mae gan yr Awdurdod reolaethau a llywodraethiant da, ond nid yw'n hunanfodlon. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, yn ogystal ag archwiliad diweddar a gynhaliwyd ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod, wedi canfod meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau pellach.

## 6.0 Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Heriau ar gyfer 2017/18

Nododd yr Archwiliwr Cyffredinol nifer o faterion a meysydd lle gellid gwella mewn perthynas â'r gofrestr asedau. Nid yw'r gofrestr asedau yn cadw gwybodaeth ddigon manwl ar yr asedau unigol a gyfrifir fel offer gweithredol a TG, ac nid yw'r broses i roi cyfrif am waredu asedau yn ddigon cadarn.

Mae cyllid sector cyhoeddus yn parhau i fod yn her. Mae effaith gostyngiadau mewn gwariant yn y sector cyhoeddus yn fater allweddol i'r Awdurdod a chymerir y sefyllfa y mae awdurdodau lleol eu ei wynebu yn cael ei chymryd i ystyriaeth bob amser pan fydd yr Awdurdod yn pennu ei gyllideb flynyddol, ac mae'r goblygiadau bob amser yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol.

Disodlodd Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 Ddeddf yr iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, yng Nghymru mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal gyda'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Nid oes angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu cynlluniau Iaith Gymraeg bellach ond nawr rhaid iddynt, yn hytrach, gydymffurfio gyda set o Safonau Iaith Gymraeg cenedlaethol.

Mae Comisiynydd yr Iaith Gymraeg wedi cyflwyno Hysbysiad Cydymffurfio sy'n nodi pa Safonau sy'n berthnasol i'r Awdurdod, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu. Cyhoeddodd yr Awdurdod ddogfen yn nodi sut mae'n bwriadu cydymffurfio ar lefel gorfforaethol gyda'r Safonau a pha brosesau mewnol sydd yna ar gyfer goruchwylio a monitro gweithrediad.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Fel un o'r partneriaid statudol ar y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, rydym wedi cymryd y gofynion hyn i ystyriaeth yn gynnar yn eich cylch cynllunio. Bydd gofyn i bob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus gynhyrchu Cynllun Llesiant lleol, a bydd gofyn dangos tystiolaeth trwy gyfrwng arolwg blynyddol sut mae'r amcanion yn cael eu cyflawni. Bydd angen i ni felly sicrhau ein bod yn medru cyflenwi anghenion a disgwyliadau amcanion pob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus heb effeithio cyflenwad gwasanaeth y gyfundrefn o ddydd i ddydd.

Ar ôl yr Etholiadau Llywodraeth Leol penodwyd 16 o aelodau newydd i'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ddinesig. Cafwyd proses gyflwyno gynhwysfawr i Aelodau ym mis Mehefin, nid yn unig i hysbysu'r Aelodau o waith a dyletswyddau statudol yr Awdurdod a'r Gwasanaeth ond hefyd i'w hysbysu o'r heriau sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol.

Mae newidiadau posibl i ddeddfwriaeth pensiwn a threthi yn parhau i gynrychioli her i'r gyfundrefn ac mae'r gallu i ddelio â'r materion cymhleth gydag adnoddau presennol yn parhau i achosi pryder gydag amrywiol opsiynau yn cael eu hystyried.

Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn "Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad". Tra bo'r prif ffocws ar Gynghorau, cyfeiriwyd at Awdurdodau Tân ac Achub:

> *"Mae gan wasanaethau tân ac achub yng Nghymru hanes o gyflawni. Maent wedi lleihau nifer y tanau a nifer y marwolaethau ac anafiadau o achos tân dros 50% ers datganoli'r cyfrifoldeb iddynt yn 2004. Mae ganddynt hanes hir o weithio'n rhanbarthol hefyd, gan weithredu felly ers 1996. Yn hynny o beth, maent eisoes yn enghraifft o'r dull eang y mae'r Papur Gwyn hwn yn ei gynnig ar gyfer gwasanaethau Awdurdod Lleol eraill.*

*Fodd bynnag, nid yw trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub yn sicrhau digon o atebolrwydd, er enghraifft, nid yw arweinwyr Cyngor ac aelodau cabinet yn aelodau gan amlaf. Hefyd, nid yw swyddogaethau gweithredol a swyddogaethau craffu wedi'u gwahanu a chaiff cyllidebau eu gosod heb unrhyw her neu reolaeth allanol ffurfiol.*

*I unioni hyn ac i sicrhau bod gwasanaethau tân ac achub yn cael eu hintegreiddio'n briodol â gwasanaethau rhanbarthol eraill, cynigir bod Awdurdodau Tân ac Achub yn newid eu trefniadau llywodraethu fel bod eu haelodaeth yn debyg i aelodaeth Cyd-bwyllgorau Llywodraethu, a bod cyllidebau'n cael eu pennu'n gyfunol trwy gytundeb. Ni fyddai hyn yn newid rôl, nifer na ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub, na'u bodolaeth fel sefydliadau ar wahân sydd â'r grym i gyflogi staff, gwario arian a chyflawni swyddogaethau ar eu liwt eu hunain.*

*Fel rhan o'r Bil newydd, cynigir na fydd Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn gymwys bellach i Awdurdodau Tân ac Achub o'r un dyddiad ag Awdurdodau Lleol. Ni fyddant trefniadau gwella a pherfformiad newydd sydd hamlinellu ar gyfer Awdurdodau Lleol yn berthnasol iddynt. Cynhelir ymgynghoriad llawn maes o law ar y trefniadau llywodraethu, cyllido a rheoli perfformiad newydd ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub."*

O ystyried yr uchod, rydym yn disgwyl i ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi eleni a fydd yn ystyried y materion ac a fydd, mae'n debyg, yn golygu newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae Awurdodau Tân ac Achub yn cael eu rhedeg.

**Cynllun Gweithredu Datganiad Llywodraeth Blynyddol 2016/17 – Camau Newydd ar gyfer 2017/18:**

| Amcan | Nod | Canlyniad | Pwy sy'n gyfrifol | Dyddiad y disgwylir cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Arolygu'r gofrestr asedau a sicrhau bod systemau cadarn yn bodoli i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi. | Gwella adrodd ariannol a'r amgylchedd rheoli ariannol. Rheolwyr Adrannol i'w briffio'n llawn ar y gofynion. Sicrhau dosbarthu asedau yn gywir. | Sicrhau bodloni agweddau ansoddol a mesurol Côd Ymarfer ar adroddiadau cyfrifeg ac ariannol Awdurdod Lleol. | DCFO | Mawrth 2018 |
| Datblygu gwybodaeth y weinyddiaeth newydd | Aelodau'r Awdurdod i gael eu briffio'n llawn ar y materion perthnasol. Swyddogion ac aelodau i fod yn ymwybodol o'r protocol aelodau/swyddogion ac i gydymffurfio â'r protocol. Bydd sesiwn gynefino lawn i'r aelodau – caiff ei ailadrodd fel y bo'r angen a bydd disgwyl i'r aelodau fynychu | Trosglwyddo'r arweinyddiaeth yn effeithiol o'r hen weinyddiaeth i'r weinyddiaeth newydd | Prif Swyddog Tân, gyda chymorth y Clerc a'r Trysorydd | Medi 2017 |
| Posibilrwydd o nifer sylweddol o aelodau newydd | Darparu hyfforddiant effeithiol i'r holl aelodau; egluro swyddi a chyfrifoldebau | Fel uchod | Prif Swyddog Tân | O Fedi 2017 hyd at Ebrill 2022 |
| Adolygu diwyg papurau'r Awdurdod | Gwella eglurder a phroses y polisi asesu effaith | Cyflwyniad gwella a phapurau cyson ar gyfer yr Awdurdod | Rheolwr Cynllunio Corfforaethol | Mawrth 2018 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwella'r modd y mae prosiectau'n cael eu hadolygu ar ôl eu rhoi ar waith | Gwella dysgu | Cyflawni prosiectau'n wella | DBST | Mawrth 2018 |
| Adnabod arbedion/prosiectau ar gyfer y Strategaeth Ariannol Tymor Canol. | Arolygu'r gyllideb refeniw i adnabod arbedion a monitro efffaith prosiectau ar arbedion yn y dyfodol | Gwell cadernid ariannol i liniaru gostyngiadau cyllid yn y dyfodol | Gweithgor Gwella | Hydref 2017 |
| Safonau'r Iaith Gymraeg | I sicrhau cydymffurfio gyda'r safonau a'r arweiniad perthnasol | IGwell cyflenwad gwasanaeth ac ymgysylltiad gyda chymunedau | Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol | Mawrth 2018 |

## 7.0 Crynodeb o Sicrwydd

Llywodraethu da yw sylfaen y gwaith o ddarparu gwasanaethau o safon sy'n diwallu anghenion yr holl randdeiliaid, ac mae'n hanfodol er mwyn dangos bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Yn seiliedig ar yr adolygiad, yr asesiad a'r gwaith monitro parhaus a wnaed yn ystod 2016/17, rydym o'r farn fod trefniadau llywodraethu da yn eu lle, bod y systemau allweddol yn gweithredu'n iawn ac nad oes unrhyw dystiolaeth o wendidau sylfaenol mewn rheolaeth. Fodd bynnag, ni all yr un system reolaeth ddarparu sicrwydd absoliwt yn erbyn camddatgan na cholled. Yn seiliedig ar y gwahanol sicrwydd a roddwyd, bwriad y datganiad hwn yw rhoi sicrwydd rhesymol fod trefniadau llywodraethu corfforaethol boddhaol yn eu lle a'u bod yn gweithio'n effeithiol.

Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod i wella rhagor ar ein trefniadau llywodraethu. Rydym wedi ein bodloni y bydd y camau hyn yn ymdrin â'r angen i gael y gwelliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

**Llofnod:**
**(Prif Swyddog Tân) 2017**

**Llofnod:**
**(Cadeirydd ATAGC) 2017**